**Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Adroddiad ar Brif Ffrydio Cynaliadwyedd i Bortffolios Gweinidogion – 10 mlynedd o Ddyletswydd Statudol**

## Cyflwyniad

1. Ar 22 Mai yng Ngŵyl y Gelli lansiodd Prif Weinidog Cymru a minnau Gynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned. Mae hyn yn cadarnhau mai datblygu cynaliadwy yw egwyddor drefnu ganolog Llywodraeth y Cynulliad ac mae'r Cynllun yn amlinellu'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni hyn. Mae'n amlinellu y dyhead y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn sefydliad sy'n dangos esiampl dda yn y ffordd rydym yn prif ffrydio ac yn dangos arweinyddiaeth ar ddatblygu cynaliadwy. Felly, rwy'n croesawu adroddiad y Pwyllgor ac yn falch o allu derbyn ei holl argymhellion yn rhannol neu mewn egwyddor.

2. Mae'r Cynllun yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer Cymru gynaliadwy. Dyma'r diffiniad ategol o ddatblygu cynaliadwy yn ein Cynllun:
   - gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan sicrhau ansawdd bywyd gwell i'n cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol:
     - mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal;
     - mewn ffyrdd sy'n gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn parchu ei derfynau - gan ddefnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear a chynnal ein hetifeddiaeth ddiwylliannol.

Rydym yn cydnabod mai datblygu cynaliadwy yw'r broses a ddefnyddiwn i gyflawni nod cynaliadwyedd.

3. Mae ein Cynllun yn ei gwneud hi'n glir iawn mai datblygu cynaliadwy yw nod strategol cyffredinol holl bolisïau a rhaglenni Llywodraeth y Cynulliad yn holl bortffolios y Gweinidogion. Mesurwn ein cynnydd ar ddatblygu cynaliadwy gan ddefnyddio'n pum prif ddangosydd o ddatblygu cynaliadwy sy'n ymdrin â'r economi, cyfiawnder cymdeithasol, yr amgylchedd, defnyddio adnoddau, a lles Cymru. Rydym hefyd yn bendant mai datblygu anghynaliadwy sy'n achosi'r newid yn yr hinsawdd, ac mai datblygu cynaliadwy yw'r broses a ddefnyddir gennym i gyrraedd ein nod o ddod yn genedl gynaliadwy.

4. Felly, rydym yn glir am y gwahaniaeth rhwng datblygu cynaliadwy a newid yn yr hinsawdd. Gwnaeth adroddiad y Pwyllgor argymhellion sy'n ymwneud â gweithredu ar ddatblygu cynaliadwy ac ar newid yn yr hinsawdd

5. Mae'r Cynllun yn ei gwneud hi'n glir mai newid yn yr hinsawdd yw'r enghraifft amlycaf bod ein ffordd o fyw gyfredol yn anghynaliadwy. Dangosir hyn gan ein hôl troed ecolegol, un o'n prif ddangosyddion ar gyfer datblygu cynaliadwy, sy'n dweud wrthym pe byddai pawb ar y

ddaear yn byw'n debyg i ni, byddem yn defnyddio gwerth 2.7 blaned o adnoddau. Dyma pam mae ein cynllun yn ein hymrwymo i ddefnyddio ein cyfran deg yn unig o adnoddau'r ddaear yn ystod oes cenhedlaeth. Er mwyn ein cynorthwyo i fwrw ymlaen â'r uchelgais hon, lansiais ymgynghoriad ar ein Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd ym mis Mehefin, sy'n amlinellu cynigion ar gyfer rhaglen fanwl o weithredu i gyrraedd ein taged yn Cymru'n Un sef gostyngiad blynyddol o 3% yn ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2011 mewn meysydd lle mae gennym gyfrifoldeb datganoledig.

6. Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei ymchwiliad i brif ffrydio cynaliadwyedd mewn portffolios Gweinidogion, a gynhaliwyd yr un pryd â chynhyrchu a chyhoeddi ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy, yn dilyn cyfnod ymgynghori o 12 wythnos. Mae'r Cynllun yn amlinellu sut y byddwn yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy trwy ein holl gamau gweithredu. Mae ein hymateb isod yn adlewyrchu ymateb Llywodraeth y Cynulliad i argymhellion manwl yr Adroddiad.

**Ymateb i Argymhellion Penodol**

7. Er nad yw adroddiad y Pwyllgor yn rhifo argymhellion penodol, er rhwyddineb, rwyf wedi cyfeirio ar y rhain fel argymhellion 1 i 8, yn y drefn y cawsant eu cyflwyno yn adroddiad y Pwyllgor.

<u>Eglurder swyddogaethau – pwy sy'n gyfrifol am beth?</u>

**Argymhelliad 1: Argymhellwn fod yr holl Weinidogion yn edrych ar eu portffolio ac yn sefydlu cysylltiadau amlwg rhwng eu cyfrifoldebau portffolio a datblygu cynaliadwy.**

**Ymateb:** Derbyn

8. Mae ein Cynllun yn amlinellu sut y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu hyrwyddo datblygu cynaliadwy "wrth arfer eu swyddogaethau", a dyma'r ddogfen gyffredinol sy'n amlinellu'n glir sut bydd agenda polisi Llywodraeth y Cynulliad, ar draws yr holl bortffolios, yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy. Cyhoeddwyd hon yn ystod gwrandawiadau'r Pwyllgor, ac mae'n amlinellu'r cysylltiadau rhwng cyfrifoldebau portffolio a datblygu cynaliadwy mewn pum maes sef Defnyddio Adnoddau yn Gynaliadwy, Cynnal yr Amgylchedd, Economi Gynaliadwy, Cymdeithas Gynaliadwy, a Lles Cymru. Mae hefyd yn amlinellu'r camau y byddwn yn eu cymryd i brif ffrydio datblygu cynaliadwy fel ein hegwyddor drefnu ganolog.

9. Yn ystod yr ymchwiliad hefyd, derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniadau gan yr holl Weinidogion yn amlinellu'n fanylach sut mae gwaith eu hadrannau'n cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy.

10. Rwy'n falch o gydnabod yr arweiniad y mae fy nghydweithwyr yn y Cabinet yn ei roi i Ddatblygu Cynaliadwy, fel y dangosir yn y Cynllun a

thrwy'r dystiolaeth a ddarparwyd. Mae'n bwysig cydnabod, fel y mae ein diffiniad yn ei ddangos, bod cynaliadwyedd yn ymwneud â chyfuno ystyriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol er mwyn cyflawni gwell ansawdd bywyd i bobl a chymunedau yng Nghymru, a gall fy holl gydweithwyr yn y Cabinet ddangos hyn yn eu portffolios. Fodd bynnag, cydnabyddwn ddymuniad y Pwyllgor, yn dilyn ei ymchwiliad, am i gysylltiadau amlwg gael eu mynegi i adlewyrchu sut y bydd gwaith polisi newydd a chyfredol yn parhau i hyrwyddo ein hamcanion cynaliadwyedd. Mae Gweinidogion wedi amlygu'r meysydd canlynol o bolisïau a rhaglenni uchel eu proffil sy'n bodoli eisoes ac a fydd yn ymddangos yn y dyfodol a fydd yn cyfeirio'n benodol at y cyswllt â datblygu cynaliadwy fel yr amlinellir yn niffiniad y Cynllun Datblygu Cynaliadwy:

<u>Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai</u>

11. Cytunodd Is-bwyllgor y Cabinet ar Newid yn yr Hinsawdd, dan gadeiryddiaeth y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2009 i bennu'r gyfres ganlynol fel egwyddor drefnu ganolog Llywodraeth y Cynulliad :
    - Datganiad cliriach ar Bapurau Cabinet yn nodi sut mae egwyddorion datblygu cynaliadwy Llywodraeth y Cynulliad wedi'u cynnwys yn y materion polisi arfaethedig;
    - Cyfres gliriach o negeseuon o fewn portffolios Gweinidogion unigol, a ddefnyddir mewn areithiau a gohebiaeth Gweinidogion, y gellir eu defnyddio i ddangos blaenoriaethau datblygu cynaliadwy allweddol yn y portffolio hwnnw a sut i ddatblygu'r rhain;
    - Proses eglur o fewn pob Adran yn dangos sut mae datblygu cynaliadwy yn mynd i gael ei ddatblygu fel egwyddor drefnu ganolog yn yr Adran honno;
    - Trosolwg ac arweiniad parhaus gan y Pwyllgor hwn ar y ffordd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn sefydlu datblygu cynaliadwy fel ei egwyddor drefnu ganolog.

12. Mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai wedi sicrhau mai datblygiad cynaliadwy yw'r egwyddor drefnu ganolog yn y ffordd y mae ei gyfrifoldebau polisi yn yr Adran yn cael eu datblygu a'u gweithredu.

13. Yn dilyn lansio'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy, Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned rydym wedi:
    - cynnal digwyddiadau ymgysylltu ar bwysigrwydd datblygu cynaliadwy fel egwyddor drefnu ganolog ar gyfer awdurdodau lleol ac Awdurdodau Parc Cenedlaethol, ar gyfer y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru ac ar gyfer busnesau yng Nghymru. Cynhelir digwyddiadau ymgysylltu pellach ar gyfer y trydydd sector ac ar gyfer cymunedau yn ystod y misoedd nesaf. Rydym wedi datblygu a hyrwyddo Siarter Datblygu Cynaliadwy drafft sy'n amlinellu'r ffyrdd allweddol y gall

sefydliadau sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw eu hegwyddor drefnu ganolog;

- cyhoeddi ein Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy 2009, yn amlinellu'r cynnydd rydym yn ei wneud i ddod yn genedl fwy cynaliadwy. Roedd hyn yn dangos bod:
    - 18 o 41 dangosydd yn dangos gwelliant amlwg;
    - 14 o 41 dangosydd yn dangos ychydig neu ddim gwelliant;
    - 5 o 41 dangosydd yn dangos dirywiad amlwg;
    - 4 o 41 dangosydd heb ddigon o ddata neu ddata y gellir ei gymharu.

14. Mae darparwyr hyfforddiant Llywodraeth y Cynulliad, Eliesha, wedi cynnal 12 cwrs hyfforddi yn swyddfeydd Llywodraeth y Cynulliad ledled Cymru ar gynllun datblygu cynaliadwy Llywodraeth y Cynulliad a goblygiadau hyn i waith Llywodraeth y Cynulliad. Cynhelir 12 cwrs arall cyn diwedd mis Mawrth 2010.

15. Rydym yn gweithio gyda Fforwm ar gyfer y Dyfodol (melin drafod datblygu cynaliadwy a sefydlwyd gan Jonathan Porritt) ar nifer o brosiectau sy'n ceisio sefydlu datblygu cynaliadwy mewn adrannau ym mhob rhan o Lywodraeth y Cynulliad, ac rydym wedi sefydlu, ar lefel swyddogol, rwydwaith Llywodraeth y Cynulliad o hyrwyddwyr datblygu cynaliadwy i rannu arfer gorau a dysgu o hyn.

16. Mae datblygu cynaliadwy wedi'i adlewyrchu'n llawn yn y ffordd y mae ymrwymiadau polisi eraill wedi'u datblygu a'u gweithredu ac mae enghreifftiau allweddol yn cynnwys y canlynol:
    - Yn fuan, byddwn yn lansio adroddiad blynyddol o gyflawniadau'r flwyddyn gyntaf dan Gynllun Gweithredu'r Strategaeth Amgylcheddol 2008-11, a lansiwyd gan y Gweinidog ym mis Hydref 2008. Mae hwn yn adrodd ar y camau a gymerwyd gan amrywiaeth ehangach o randdeiliaid ledled Cymru i gefnogi canlyniadau Strategaeth Amgylcheddol Llywodraeth y Cynulliad, mewn ffyrdd sy'n cyfrannu at les economaidd a chymdeithasol a datblygu cynaliadwy;
    - Ar hyn o bryd rydym yn ymgynghori ar strategaeth ddrafft ar gyfer Ardaloedd Gwarchodedig Morol yng Nghymru;
    - Yn ystod yr haf, cwblhawyd ymgynghoriadau ar ein rhaglen weithredu strategaeth newid yn yr hinsawdd, ein Cynllun Cenedlaethol Effeithlonrwydd ac Arbed Ynni; ein Strategaeth Wastraff, ein Cynllun Gweithredu Bioynni i Gymru, ein strategaeth wastraff, Tuag at Ddyfodol Diwastraff; a'r cynigion ar gyfer codi tâl am fagiau plastig untro; a chaiff ein dull ar gyfer pob un ei gadarnhau maes o law.

17. O ran newid yn yr hinsawdd, rydym yn datblygu rhaglen gynhwysfawr i gynorthwyo gweithredu cymunedol ar newid yn yr hinsawdd ac ymddygiad cynaliadwy ehangach. Er enghraifft:
    - Rydym wedi cynhyrchu pecyn gwybodaeth cymunedol gyda chyngor ar amrywiaeth eang o brosiectau cynaliadwyedd y gallai'r cymunedau eu cyflawni gyda DVD yn dangos enghreifftiau o arfer da.

- Trefnwyd gweithdy Newid Ymddygiad Cynaliadwy ym mis Medi dan arweiniad Doug McKenzie Mohr, arbenigwr byd-eang ar farchnata cymdeithasol a newid ymddygiad, a wnaeth ysgogi ac ysbrydoli'r gynulleidfa i feddwl yn wahanol am weithredu lleol a chenedlaethol. Darparodd y seminar fframwaith ar gyfer gwaith y dyfodol ac roedd yr adborth gan y pedwar ugain grŵp cymunedol, gweithredwyr lleol, cynghorwyr cymuned ac eraill a fynychodd yr hyfforddiant yn gadarnhaol iawn.

- Rydym wedi sefydlu Rhwydweithiau Gweithredu Cymunedol ar Newid yn yr Hinsawdd, sy'n cael eu harwain yn lleol ac yn datblygu dulliau nodedig i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Bydd y try digwyddiad Rhwydwaith nesaf (yng Nghasnewydd, Llangollen ac Aberystwyth) yn canolbwyntio ar gynllunio camau gweithredu cymunedol.

- Rydym yn datblygu tri chynllun peilot ar gyfer gweithredu cymuned gyfan ar newid yn yr hinsawdd gyda gwahanol ganolbwynt ac yn darparu cymorth i alluogi grwpiau nad ydynt yn rhai amgylcheddol i gyflawni swyddogaeth fwy ymarferol ar newid yn yr hinsawdd.

- Mae'r camau nesaf yn cynnwys datblygu deunyddiau pellach ac edrych ar ddarparu hyfforddiant ychwanegol ac rydym yn cydweithio ag academyddion sy'n gweithio yn y maes yng Nghymru ar hyn.

18. Cyflwynwyd gorchymyn trosglwyddo swyddogaethau'r Rheoliadau Adeiladau gerbron y Senedd ar 20 Gorffennaf 2009. Byddai trosglwyddo yn caniatáu i Lywodraeth y Cynulliad bennu fframwaith safonau ar gyfer pob adeilad, beth bynnag yw eu ffynhonnell cyllid sydd wedi'i lunio'n bwrpasol i Gymru. Y flaenoriaeth yn dilyn y trosglwyddo fydd cyflwyno newid sylweddol i leihau allyriadau carbon cyn gynted ag yn ymarferol.

19. Rydym wedi sefydlu Grŵp Cymru Ddigarbon i ymgysylltu â rhanddeiliaid, lledaenu gwybodaeth a darparu fforwm ar gyfer trafod i gefnogi amcanion Llywodraeth y Cynulliad i newid i adeiladau newydd carbon isel.

20. Yn ogystal â chyfrannu at dargedau newid yn yr hinsawdd a thlodi tanwydd Llywodraeth y Cynulliad, mae'r cyllid sydd ar gael ar gyfer effeithlonrwydd ynni domestig yng Nghymru yn ysgogiad economaidd sylweddol. Dros y tair blynedd nesaf, pe byddem yn llwyddo i ddenu cyllid i Gymru, rydym yn amcangyfrif gweld hyd at £350 miliwn yn cael ei fuddsoddi yma mewn effeithlonrwydd ynni domestig. Wrth ddefnyddio dull mwy strategol a chydlynol o ariannu effeithlonrwydd ynni domestig, ein blaenoriaethau fydd sicrhau (a) bod cymaint o gyllid â phosibl yn cael ei sicrhau ar gyfer Cymru a'i (b) fod yn cael ei gyfeirio at weithgareddau a fydd yn sicrhau'r manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd gorau i Gymru.

21. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried mai deunyddiau adnewyddadwy sy'n cyflwyno'r dewisiadau cynaliadwy hirdymor gorau i

ymateb i'n heriau ynni cynaliadwy. Bydd y Gweinidog yn cyhoeddi datganiad ynni carbon isel yn fuan a fydd yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ynghylch fframwaith datblygu cynaliadwy ar gyfer cyflymu trawsnewid hanfodol yng Nghymru i economi sy'n seiliedig ar ynni carbon isel effeithlon.

22. Ym mis Gorffennaf 2009, cyhoeddodd y Gweinidog Ddatganiad Polisi Strategol ar Ynni'r Môr yng Nghymru. Mae'r Datganiad Polisi yn cynnig sut y gallwn wneud y gorau o adnodd ynni'r môr, gan darfu cyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd lleol. Mae'r datganiad yn darparu cymorth lefel uchel ar gyfer datblygu ynni'r môr yng Nghymru ac yn pennu'r fframwaith strategol ar gyfer datblygu sector ynni morol cadarn yng Nghymru yn ystod yr 20 mlynedd nesaf.

23. Yn 2007 lansiwyd Fframwaith Strategol Ynni Adnewyddadwy'r Môr, i wella ein dealltwriaeth o'r adnodd morol yng Nghymru a'r potensial ar gyfer ei ddefnyddio o fewn fframwaith datblygu cynaliadwy. Disgwylir cwblhau'r Fframwaith yn hydref 2010.

24. Mae adnodd ynni'r llanw Aber Hafren yn darparu dull posibl ar gyfer creu hyd at 5% o anghenion trydan y DU. Ym mis Ionawr 2008, cychwynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru, Llywodraeth y DU ac Asiantaeth Datblygu Ranbarthol De Orllewin Lloegr ar astudiaeth ddichonoldeb ddwy flynedd gwerth £9 miliwn i gostau a buddion sicrhau'r ynni hwn. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio hefyd â'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd ac Asiantaeth Datblygu Ymchwil y De Orllewin i ariannu astudiaeth ychwanegol gwerth £500,000, a elwir yn Gynllun Egin Dechnolegau Ynni'r llanw Afon Hafren. Bydd hwn yn edrych ymhellach ar y potensial ar gyfer defnyddio tri dewis arloesol ar gyfer creu ynni'r llanw yn Aber Hafren: dau gynllun ffens lanw a morglawdd tyrbinau pwysau isel.

25. Rydym wedi sicrhau digon o gyllid ychwanegol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol o'r Cronfeydd Strwythurol. Mae'r buddsoddiad hwn, yn ogystal â'n rhaglen reoli perygl llifogydd a Chyllid Buddsoddi Cyfalaf Strategol, yn gwneud cyfraniad pwysig at ddatblygu cynaliadwy trwy ddarparu gwell amddiffyniad rhag perygl llifogydd.

26. Mae datblygiad cynaliadwy yn cwmpasu ein dull ar gyfer polisi dŵr yng Nghymru. Mae ein Datganiad Safbwynt Polisi Strategol ar Ddŵr yn amlinellu'n hegwyddorion craidd sef sicrhau y gellir cael dŵr yfed diogel, cynnal a chadw gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth am bris fforddiadwy a chydymffurfio â rhwymedigaethau statudol sy'n llywio ansawdd dŵr yn gyffredinol. Rydym yn edrych ar y potensial i ddefnyddio'r cysyniad o ôl troed dŵr er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r adnoddau a ddefnyddir wrth weithgynhyrchu cynhyrchion ac mae hyn yn ategu ein gwaith ar yr ôl troed ecolegol.

27. Gyda'i gilydd bydd yr agenda bolisi yn mynd â ni tuag at y weledigaeth o gael Cymru gynaliadwy fel yr amlinellir yn ein cynllun Datblygu Cynaliadwy.

28. Ym mhortffolio'r Dirprwy Weinidog dros Dai, mae Llywodraeth y Cynulliad yn y broses o gynhyrchu strategaeth dai genedlaethol newydd, *Cartrefi Cynaliadwy*, i ddisodli'r strategaeth bresennol, *Cartrefi Gwell (2001)*. Roedd drafft o'r strategaeth newydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn gynharach yn y flwyddyn. Mae ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu hystyried. Mae fersiwn terfynol yn cael ei baratoi a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ddechrau'r flwyddyn nesaf.

29. Bydd y strategaeth yn darparu fframwaith cydlynol ar gyfer gweithredu i fynd i'r afael â thai a materion cysylltiedig ledled Cymru. Bydd yn cynnwys egwyddorion datblygu cynaliadwy a swyddogaeth ehangach tai. Yn ogystal â mynd i'r afael ag anghenion tai a fforddiadwyedd, bydd yn adlewyrchu swyddogaeth tai o safbwynt gwella bywydau (cyfiawnder troseddol, iechyd a lles), cryfhau cymunedau (adfywio economaidd, corfforol a chymdeithasol) a lleihau ôl troed carbon (perfformiad ynni a newid yn yr hinsawdd).

30. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi mabwysiadu'r **Cod Cartrefi Cynaliadwy** fel y fframwaith asesu ar gyfer tai newydd ac mae'n gwneud Cod Lefel 3 yn ofynnol ar gyfer pob tŷ newydd yr ydym yn dylanwadu arno trwy gyllid grant, buddsoddi a chael gwared ar dir.

31. Wrth geisio sicrhau newid sylweddol tuag at fod yn ddigarbon byddwn yn ystyried ffordd o feddwl diweddaraf Llywodraeth y DU ar ddiffinio'r term digarbon a'r goblygiadau yn sgil hynny ar gyfer Cod Cartrefi Cynaliadwy. Mae cael profiad cynnar o safonau uwch yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn llwyr ddeall eu goblygiadau. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ariannu rhaglen o 22 cynllun, hyd at 400 o gartrefi, o fewn y rhaglen ddatblygu RSL i gael eu hadeiladu i lefelau 4 a 5 y cod ac mae nifer o'r rhain yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd.

32. Mae Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) a bennwyd yn 2002 yn cynnwys targed effeithlonrwydd ynni sydd gyfwerth â Thystysgrif Perfformiad Ynni graddfa D. Yn 2004 aseswyd 15% o stoc awdurdodau lleol gan Arolwg Byw yng Nghymru. Roedd 57% o stoc cymdeithasau tai yn cydymffurfio â safonau effeithlonrwydd ynni Safon Ansawdd Tai Cymru. Disgwylir cyhoeddi diweddariad o Arolwg Byw yng Nghymru yn 2009.

33. Trwy Hysbysu i Ymrwymo (i2i) a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad darparwyd gwaith, canllawiau a chymorth i awdurdodau lleol a sefydliadau trosglwyddo stoc a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ynglŷn â sut y gall rhaglenni buddsoddi ychwanegu gwerth gan ddarparu swyddi a hyfforddiant lleol. Mae recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu bellach yn rhan o raglenni gwella trosglwyddo RSL a phrosiectau sector cyhoeddus eraill. Mae hyn yn cynnwys defnyddio recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu fel amod contract i ddarparu swyddi 'gwyrdd' ym

meysydd ynni a chynaliadwyedd. Er enghraifft, ar hyn o bryd mae i2i yn cynorthwyo Fairlake Properties i ddefnyddio recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu i glymu contractwyr i greu swyddi ychwanegol a llefydd hyfforddi ar gyfer 'cynghorwyr ynni' ar gynllun Lefel 5 y Cod yng Nghasnewydd. Caiff y swyddi newydd eu creu i gynorthwyo tenantiaid i ddefnyddio technoleg effeithlonrwydd ynni newydd yn eu tai newydd.

34. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynorthwyo dau gynllun peilot RSL:

- Mae DEVCO a GENUS yn asesu eu stoc i ddarparu dangosydd llinell sylfaen ar gynaliadwyedd, gan ddefnyddio'r diweddaraf o blith cyfres o ddulliau perfformiad amgylcheddol Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) - EcoHomes XB.
- Mae Cymdeithas Tai Valleys to Coast (V2C) yn adnewyddu pum tŷ yn y De mewn modd cynaliadwy ac yn arfarnu'r gwaith yn erbyn atebion cyfredol ac arfer gorau. Mae'n bwriadu treialu cynllun wedi'i reoli gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE) Cymru er mwyn asesu'r safonau cynaliadwyedd y mae'n bosibl eu cyflawni ar gyfer adnewyddu tai yng Nghymru mewn perthynas â SATC.

35. Defnyddir canlyniadau'r ddau gynllun peilot fel Enghraifft Arfer Gorau er mwyn i Ddarparwyr Tai Cymdeithasol eraill ddysgu ohonynt a'u defnyddio fel model i'w ddilyn yn ogystal â llywio safonau'r dyfodol.

Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth:

36. Darperir y dull ar gyfer economi mwy cynaliadwy trwy ymrwymiad Cymru'n Un sef Strategaeth Swyddi Gwyrdd. Bydd y strategaeth hon yn un o'i mecanweithiau allweddol y bydd Adran yr Economi a Thrafnidiaeth yn eu defnyddio i sicrhau gwerthoedd ehangach Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer datblygu cynaliadwy a newid yn yr hinsawdd. Bydd y Strategaeth yn strategaeth allweddol i lunio ac ysgogi'r cyfleoedd busnes sy'n gysylltiedig â newid i economi carbon isel, gwastraff isel, gan gynnwys darparu yn y meysydd canlynol:

- pennod 'Economi Gynaliadwy' cynllun Datblygu Cynaliadwy 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned'
- targedau Cymru'n Un i leihau allyriadau CO2 3% y flwyddyn erbyn 2011 ym meysydd cymhwysedd datganoledig;
- y cynnig i gynyddu targedau ailgylchu gwastraff trefol;
- y Trywydd Ynni Adnewyddadwy.

37. Mae'r gwaith o baratoi Strategaeth Drafnidiaeth statudol Cymru yn rhan allweddol o'r fframwaith newydd ar gyfer cynllunio trafnidiaeth a roddwyd ar waith gan Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006. Mae'r Strategaeth wedi disodli'r *Fframwaith Trafnidiaeth i Gymru* sef Fframwaith anstatudol a gyhoeddwyd yn 2001. Mae fframwaith lefel uchel yn amlinellu ein polisïau trafnidiaeth ar gyfer y ffordd y byddwn yn ceisio datblygu rhwydwaith trafnidiaeth integredig ac effeithiol. Mae hefyd yn amlinellu

sut mae trafnidiaeth yn cyfrannu at yr agenda bolisi genedlaethol, gan gynnwys datblygu economaidd a chynaliadwy, iechyd a'r amgylchedd.

38. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori ym mis Gorffennaf, yn cael ei arweiniad o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, sy'n amlinellu manylion polisïau trafnidiaeth penodol a rhaglenni cenedlaethol/strategol. Bydd Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn darparu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ar lefel ranbarthol a lleol.

39. O ran adeiladau cynaliadwy, rydym yn gwneud y meini prawf canlynol yn ofynnol ar gyfer yr holl adeiladau newydd sy'n cael eu hyrwyddo neu eu cynorthwyo gan Lywodraeth y Cynulliad (wedi'u caffael yn uniongyrchol neu'n derbyn cymorth ariannol, yn gyd-fentrau neu i brosiectau ar dir a werthwyd, ar brydles neu y cafwyd gwared arno mewn unrhyw ffordd ar gyfer datblygu):

- datblygiadau preswyl i gyflawni o leiaf Lefel 3 Cod Cartrefi Cynaliadwy;
- datblygiadau nad ydynt yn rhai preswyl i gyflawni safon 'Rhagorol' BREEAM (neu gyfwerth);
- o leiaf 10% (yn ôl gwerth) i ddeunyddiau ailgylchu i gael eu defnyddio ym mhob adeilad newydd.

Mae Adran yr Economi a Thrafnidiaeth wedi datblygu a chyhoeddi dogfen gyfarwyddyd ar gyfer ein staff a'n partneriaid darparu.

<u>Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus:</u>

40. Mae nifer o feysydd allweddol yn y portffolio lle mae datblygu cynaliadwy yn cael ei weithredu:
    - Fframwaith Gweithredu Caffael Cynaliadwy Gwerth Cymru, lle rydym yn gweithio i gyflawni'r lefel uchaf (5) erbyn 2010;
    - y Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol, sy'n ystyried cynaliadwyedd wrth asesu cynigion ar gyfer prosiectau newydd;
    - gwaith parhaus i wella prosesau cynllunio a dyrannu cyllideb, a datblygu dulliau i wella'r gwaith o ddatblygu polisi ac sy'n cynorthwyo i fesur effaith cynigion a buddsoddiad yn well, er mwyn sicrhau bod polisïau yn fwy effeithiol o ran gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, cyflawni gwell ansawdd bywyd ar ein cyfer ni a chenedlaethau'r dyfodol;
    - gwaith Byrddau Gwasanaeth Lleol, Grwpiau Cynllun Gofodol a Strategaethau Cymunedol, sy'n darparu'r arweinyddiaeth gydweithredol sydd ei hangen i sicrhau y gellir gwneud penderfyniadau cyfannol a sicrhau bod egwyddorion datblygu cynaliadwy yn arwain gwaith cynllunio a gweithredu gwasanaethau cyhoeddus lleol;

- gwaith arloesol a thrawsbynciol Rhanbarthau Carbon Isel a Rhanbarthau Amgylchedd wedi'u Rhwydweithio yn cael ei ddatblygu dan nawdd proses Cynllun Gofodol Cymru; a
- bydd ein hagenda gwella gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i ganolbwyntio ar wella lles pobl a chymunedau Cymru trwy ymgysylltu'n agosach gyda'r bobl wrth lunio a darparu gwasanaethau ac ymateb yn fwy effeithiol i'r rhai â'r anghenion mwyaf.

<u>Y Gweinidog dros Faterion Gwledig:</u>

Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad – creu dyfodol cadarn

41. Cyhoeddodd yr Adran Materion Gwledig ei strategaeth adrannol cyffredinol sy'n dwyn yr enw 'Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad - creu dyfodol cadarn', ym mis Mai eleni. Mae'r strategaeth yn cyfrannu at yr agenda datblygu cynaliadwy ar draws sawl maes: o reoli tir yn gynaliadwy a thargedau newid yn yr hinsawdd i swyddi sector amaethyddol mwy cynaliadwy a thwristiaeth gynaliadwy. Mae'n targedu arbed ynni a ffynonellau ynni amgen ac yn cefnogi'r Gymraeg trwy sicrhau bod cynaliadwyedd ffermydd teuluol a chymunedau gwledig yn gonglfaen i'r strategaeth newydd. Mae Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad yn pennu'r agenda ar gyfer nifer o is-strategaethau sydd wedyn yn sicrhau bod cynaliadwyedd yn elfen graidd, gan gynnwys strategaeth Bwyd a Diod, Strategaeth Coetiroedd i Gymru a'r strategaeth amaeth-amgylchedd Glastir.

Glastir

42. Mae Glastir, a gafodd ei gyhoeddi hefyd ym mis Mai 2009 gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig, yn newid dull – Glastir - cynlluniau rheoli tir yng Nghymru. O 2012 ymlaen, bydd un cynllun yn disodli'r pum cynllun amaeth-amgylchedd sy'n bodoli eisoes. Bydd y cynllun hwn mewn gwell sefyllfa i ymateb i'r heriau amgylcheddol presennol a rhai'r dyfodol.

43. Lluniwyd y cynlluniau amaeth-amgylchedd cyfredol i fodloni agenda wahanol. Bellach, rydym yn wynebu heriau a chyfleoedd newydd ac mae angen i gynlluniau allu ymateb i alwadau'r dyfodol. Mae'r cynllun newydd yn adlewyrchu ymrwymiadau amgylcheddol Llywodraeth y Cynulliad yn ogystal â'n strategaethau newydd ar gyfer bwyd a ffermio.

44. Bydd Glastir yn talu ffermwyr i reoli'r tir mewn ffordd sy'n ymateb i heriau a blaenoriaethau'r oes, gan gynnwys bioamrywiaeth, newid yn yr hinsawdd a rheoli dŵr.

Coetiroedd i Gymru

45. Lansiwyd *Coetiroedd i Gymru*, strategaeth goetiroedd ddiwygiedig Llywodraeth y Cynulliad, gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig ar 27 Mawrth 2009. Roedd angen diwygio'r strategaeth flaenorol a gyhoeddwyd yn 2001 er mwyn ail-gadarnhau'r blaenoriaethau cyfredol, sicrhau ei bod yn cyd-fynd â Strategaeth Amgylcheddol Llywodraeth y Cynulliad a nodi ymateb y diwydiant coedwigaeth i themâu newydd megis newid yn yr hinsawdd.

46. Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn gweithredu fel adran goedwigaeth Llywodraeth y Cynulliad ac yn gyfrifol am ddarparu'r Strategaeth newydd trwy ei Gynllun Corfforaethol diwygiedig. Mae hwn yn disgrifio'r camau gweithredu manwl yn seiliedig ar bum thema strategol y Strategaeth: Coetiroedd a Choed yng Nghymru; Ymateb i Newid yn yr Hinsawdd; Coetiroedd i Bobl; Datblygu Sector Coedwigaeth Cystadleuol a Chyfannol a Gwella'r Ansawdd Amgylcheddol.

47. Mae'r Strategaeth Goetiroedd a Chynllun Corfforaethol y Comisiwn yn pennu targedau sy'n gofyn llawer gyda'r nod o gynyddu coetiroedd brodorol Cymru yn ogystal â sicrhau bod mwy o goetiroedd yn cael eu rheoli, yn enwedig darnau bach a thameidiog. Mae cynllun grant Gwell Coetiroedd i Gymru yn cynorthwyo perchnogion preifat i geisio cael tystysgrif Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig i ddangos gwaith rheoli cynaliadwy.

Cynllun Gweithredu Cyrchu Lleol

48. Lansiwyd Cynllun Gweithredu Cyrchu Lleol "Bwyd a Diod i Gymru" Llywodraeth y Cynulliad ar 2 Ebrill 2009.

49. Mae'r cynllun yn amlinellu'r camau gweithredu i'w cyflawni mewn partneriaeth rhwng Is-adrannau perthnasol allweddol Llywodraeth y Cynulliad, sectorau cynhyrchu a gweithgynhyrchu bwyd a diod, llywodraeth leol a'r sectorau manwerthu a gwasanaeth bwyd.

50. Ei nod yw cynorthwyo cwmnïau bwyd a diod Cymru i allu defnyddio marchnadoedd lleol a'i gwneud hi'n haws i ddefnyddwyr brynu a bwyta bwyd a diod o Gymru. Hefyd, mae'n ceisio codi 'ymwybyddiaeth' a chyflenwi bwyd lleol i'r sectorau preifat a chyhoeddus. Bydd y mentrau hyn yn codi lefelau cyrchu lleol tra'n lleihau "taith bwyd".

Grŵp Defnydd Tir a Newid Hinsawdd Cymru

51. Cafodd grŵp newydd i gynghori Llywodraeth y Cynulliad ar sut y gall amaethyddiaeth ymateb i her diogelu'r cyflenwad bwyd tra'n gostwng allyriadau nwy tŷ gwydr ei sefydlu yn 2009 (Ionawr) hefyd.

52. Mae sefydliadau ffermio a chefn gwlad, asiantaethau'r llywodraeth a sefydliadau academaidd yn cael eu cynrychioli dan gadeiryddiaeth yr Athro Gareth Wyn Jones.

53. Bydd y grŵp yn defnyddio dull integredig, cyfannol yn seiliedig ar asesu'r cyfaddawd rhwng manteision ac anfanteision wrth gyflawni gwasanaethau ecosystem:

- cyflenwi bwyd, ffeibr, dŵr a thanwydd,
- cyflenwi gwasanaethau cymorth sylfaenol - cynhyrchu cychwynnol, cylchu maetholion, ffurfiant pridd,
- cyflenwi gwasanaethau rheoleiddio - rheoli llifogydd, rheoli'r hinsawdd, rheoli clefydau, rheoli ansawdd aer, a
- chyflenwi gwasanaethau diwylliannol – tirwedd, bioamrywiaeth a hamdden.

Bydd cylch gwaith y Grŵp yn cynnwys:

a). sut i ostwng a, lle bo'n briodol gwneud iawn am, allyriadau o amaethyddiaeth a defnydd a gweithgareddau tir gan ystyried

- cylch oes cadwyn gynhyrchu bwyd o'r fferm i'r fforc,
- cyfraniadau i'r sector gan sectorau eraill e.e. gwrtaith artiffisial, trafnidiaeth, cemegion eraill,
- yr economi gwledig cyffredinol o ran anghenion adnoddau a chynaliadwyedd e.e. ynni
- potensial cymunedau gwledig i greu ynni adnewyddadwy

b). sut y gall amaethyddiaeth a choetiroedd addasu i newid yn yr hinsawdd – gan ystyried cyfleoedd a bygythiadau newid yn yr hinsawdd

c). sut i reoli ein tir a gwella gallu sectorau eraill cymdeithas i addasu i newid yn yr hinsawdd.

54. Disgwylir i'r Grŵp adrodd yn ôl i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig tua diwedd 2009.

<u>Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol:</u>

55. Mae rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn nodi'n eglur yr angen i wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig er mwyn hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal. Amlinellodd yr ymarfer ymgynghori ar Gymunedau yn Gyntaf yn 2008 y cynigion ar gyfer datblygu'r rhaglen. Roedd y rhain yn cynnwys canolbwyntio mwy ar fynd i'r afael â gweithgarwch economaidd, sicrhau mwy o incwm a thlodi plant. Ers yr ymgynghoriad mae'r Rhaglen cymunedau yn Gyntaf wedi'i chryfhau a'i hadnewyddu. Dyfarnwyd cyllid craidd i bob un o'r 151 o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf am y tair blynedd nesaf (2009-12) a chyflwynwyd Cronfa Ganlyniadau a fydd yn darparu o leiaf £25 miliwn i ariannu prosiectau newydd mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf dros y tair blynedd nesaf mewn partneriaeth â darparwyr gwasanaeth allweddol. Bydd y Gronfa hon yn galluogi Partneriaethau i wneud cais i Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi themâu allweddol y Fframwaith Gweledigaeth.

Tlodi Plant

56. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud ymrwymiad clir i dargedau tlodi plant Llywodraeth y DU. Rydym yn ymroddedig i wneud popeth o fewn y pwerau sydd ar gael i ni i'n cynorthwyo i gyflawni'r nod i ddileu tlodi plant erbyn 2020.

Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru)

57. Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol a Meysydd Eraill) 2008, yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i ddeddfu ar faterion sy'n ymwneud â lles cymdeithasol plant a phobl ifanc hyd at 25 oed. Ym mis Gorffennaf 2008 cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn cynnig Mesur Cynulliad mewn perthynas â thlodi plant a phlant agored i niwed a fyddai'n cael ei gyflwyno yn 2009.

58. Cyflwynwyd y Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 2 Mawrth 2009. Gwnaed Datganiad Deddfwriaethol gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol mewn cyfarfod Llawn ar 3 Mawrth 2009. Ystyriwyd y Mesur arfaethedig gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 a gyhoeddodd ei Adroddid Pwyllgor Cam 1 ym mis Mehefin 2009. Cynhaliwyd trafodaeth ar yr egwyddorion cyffredinol mewn Cyfarfod Llawn yn nes ymlaen yn y mis hwnnw. Cytunodd y Cynulliad ar yr egwyddorion cyffredinol, a'r penderfyniad ariannol ac mae'r Mesur arfaethedig bellach wedi symud ymlaen i Gam 2 ar gyfer ystyriaeth fanwl. Mae'r Mesur arfaethedig yn elfen allweddol o weledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer plant a phobl ifanc fel sydd wedi'i amlinellu yn '*Cymru'n Un'.* Mae'n defnyddio dull Cymreig i ddarparu atebion Cymreig i fynd i'r afael â thlodi plant ac allgáu cymdeithasol i rai o blant a theuluoedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae'n ein galluogi i ddarparu cymorth i'r teuluoedd a'r plant hynny sydd â'r angen mwyaf a fyddai ymhlith y mwyaf difreintiedig oni bai eu bod yn cael cymorth ychwanegol.

Strategaeth Gyffredinol

59. Mae'r heriau sy'n deillio o'r hinsawdd economaidd bresennol yn golygu ei bod hi'n bwysicach fyth i ni wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod ein polisïau a'n prosesau yn ymateb i anghenion y plant hynny sy'n byw mewn tlodi. Mae'n bwysig hefyd bod Llywodraeth y Cynulliad yn arwain y gwaith o bennu'r fframwaith ar gyfer gweithredu ar lefel genedlaethol a lleol.

60. Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ei Strategaeth Tlodi Plant ym mis Chwefror 2005, '*Dyfodol Teg i'n Plant*'. Cadarnhaodd y strategaeth y byddai ffocws eang i gamau gweithredu polisi a fyddai'n ymdrin â thlodi Incwm, Gwasanaeth a Chyfranogi. Cafodd y Strategaeth hon ei llywio gan waith y Grŵp Gorchwyl Tlodi Plant annibynnol 2004. Dilynwyd y

Strategaeth ym mis Mai 2006 gan y Cynllun Gweithredu Tlodi Plant gyda llawer o'n cynigion polisi o'r Cynllun wedi'u datblygu erbyn hyn. O ganlyniad i ddatblygiadau pellach yn y sail dystiolaeth ac yng nghanolbwynt polisi yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol wedi nodi y gallai gwaith gychwyn ar strategaeth tlodi plant newydd yn 2009.

Strategaeth Tlodi Plant Newydd: Cam Paratoadol (Chwefror – Medi 09)

61. Mae gwaith wedi'i gyflawni i fapio canlyniadau gwerthuso rhaglenni tlodi plant cyfredol Llywodraeth y Cynulliad. Mae hwn yn rhan o ymrwymiad "Cymru'n Un" i gynnal "adolygiad gwerthusol cadarn o ddeilliannau rhaglenni gwrthdlodi presennol yng Nghymru". Cyhoeddir adroddiad cyfunol yn yr hydref 2009.

62. Cynhaliwyd dadansoddiad mewnol o'r meysydd polisi hynny o fewn cymhwysedd Llywodraeth y Cynulliad sydd â'r potensial mwyaf i gyfrannu at agenda tlodi plant yng Nghymru. Cynhaliwyd dadansoddiad pellach hefyd o ffigurau Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (HBAI) 2009 gan Peter Kenway ar ran y Grŵp Arbenigol ar Dlodi Plant. Mae gwaith cychwynnol ar ddatblygu Strategaeth Tlodi Plant newydd i Gymru hefyd wedi edrych ar waith ymchwil diweddar gan Sefydliad Joseph Rowntree a Sefydliad Bevan, sy'n ystyried beth sydd ei angen i roi diwedd ar dlodi plant erbyn 2020.

63. Ar 5 Hydref 2009 cytunodd Pwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc ar y fframwaith a'r dull polisi eang ar gyfer datblygu strategaeth tlodi plant newydd. Mae'n bwysig ein bod ni'n datblygu'r strategaeth tlodi plant newydd ar sail yr hyn sy'n llwyddo. Bydd dadansoddi sail dystiolaeth sy'n bodoli eisoes yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer y strategaeth newydd.

64. Mae'n hanfodol bod y strategaeth newydd yn creu ymdeimlad o ddiben cenedlaethol unedig, gan weithio gyda Llywodraeth y DU i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Bydd Llywodraeth y DU yn datblygu ei Strategaeth Tlodi Plant newydd hyd at 2020 ochr yn ochr â Strategaeth Cymru a bydd hi'n bwysig bod Strategaeth Cymru yn cydweddu â strategaeth y DU o ystyried y tactegau polisi sylweddol ar lefel y DU sydd â'r gallu i ostwng lefelau tlodi incwm yn arbennig.

65. Rhagwelir y bydd drafft cyntaf Strategaeth Tlodi Plant newydd yn cael ei ystyried gan Bwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc ddechrau 2010. Bydd cyfnod ymgynghori yn dilyn yng ngwanwyn 2010.

Cydgytundeb

66. Roedd y papur ymgynghori - Mynd i'r Afael â Thlodi Plant yn cynnwys cynigion ar gyfer Cydgytundeb ar Dlodi Plant. Lansiodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol proses lofnodi'r Cydgytundeb ar Dlodi Plant ym mis Mawrth 09. Ymunodd nifer o

sefydliadau â'r Gweinidog i fod gyda'r cyntaf i ymuno â'r Cydgytundeb ar Dlodi Plant. Roedd y rhain yn cynnwys CLlLC, Un Llais Cymru, CGGC, Cydffederasiwn y GIG, Achub y Plant, Cyngor Chwaraeon Cymru, Greenhouse a Chymdeithas y Prif Swyddogion Tân.

67. Trwy lofnodi'r Cydgytundeb, mae'r sefydliadau hyn yn cytuno bod y gweithgareddau a amlinellir yn y Cydgytundeb yn darparu modd i'r sefydliadau, lle bo'n briodol, gynorthwyo Llywodraeth y Cynulliad i fwrw ymlaen â'r dull o gael tri maes ar gyfer lleihau tlodi plant. Mae sefydliadau ledled Cymru yn cael eu hannog i ymuno ac mae ein gwefan yn rhestru'r holl gyrff cyhoeddus sydd wedi cytuno i ymuno â'r cydgytundeb hyd yma (4 Medi 09) - mae 29 o gyrff cyhoeddus wedi llofnodi'r Cydgytundeb, ac mae llawer mwy wedi mynegi diddordeb i wneud hynny. Un o brif fanteision cael Cytundeb Gwirfoddol ledled sector cyhoeddus Cymru yw codi proffil a chadarnhau yn gyhoeddus bod gennym oll swyddogaeth i'w chyflawni i leihau tlodi plant. Caiff yr holl asiantaethau cyhoeddus eu hannog i lofnodi'r Cydgytundeb gan gynnwys y rhai sydd â dyletswydd dan y Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru).

68. Mae cael y Cydgytundeb hwn ar Dlodi Plant yn dangos cytundeb lefel uchel Llywodraeth y Cynulliad a sefydliadau eraill i'r nod cyffredinol o ddileu tlodi plant.

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru)

69. Mae Mesur Llywodraeth Leol Cymru bellach wedi'i basio'n gyfraith ac mae hyn yn diwygio dyletswyddau awdurdodau lleol, awdurdodau parc cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub mewn perthynas â gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn enwedig trwy ddarparu bod gwella lles lleol, cynaliadwyedd a thegwch mor bwysig â gwella canlyniadau neu effeithlonrwydd gwasanaethau. Yn ystod yr hydref hwn bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori ar ganllawiau statudol cysylltiedig a fydd yn cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau dan y mesur hwn. Bydd hyn yn cynnwys datblygu dyletswydd gyffredinol i wella telerau asesu'r cyfleoedd ar gyfer, cynaliadwyedd gwasanaethau sy'n cael eu darparu a'r bygythiadau iddynt, ond hefyd, ac yn bwysicach fyth, cynaliadwyedd tymor hirach cymunedau o fewn ardal yr awdurdod lleol. Mae hyn yn cynnwys prif ffrydio ystyriaethau ynghylch cynaliadwyedd ym mhob rhan o arweinyddiaeth gymunedol, gwaith gwneud penderfyniadau a swyddogaethau craffu'r cyngor. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi canllawiau statudol ar Fesur Llywodraeth |Leol (Cymru) 2009 yn ystod mis Mawrth 2010 a fydd yn dod i rym o 1 Ebrill 2010.

70. Mae atal tanau rhag dechrau a lliniaru'r canlyniadau'n effeithiol yn gyson â'r dull datblygu cynaliadwy. Mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yn cyfuno gwaith ymyrryd gyda gwaith atal ac addysg er mwyn sicrhau nad yw tanau'n digwydd yn y lle cyntaf. Gellir atal trwy nodi a dileu'r perygl trwy ddylanwadu ar gynllun adeilad a sicrhau bod pobl yn gwybod beth i'w

wneud pan fo tân yn digwydd a sut i ddianc. Mae llosgi bwriadol yn dal yn broblem yng Nghymru, yn enwedig yn y cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae “Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru" Llywodraeth y Cynulliad yn darparu templed ar gyfer targedu gweithgarwch ac adnoddau ymysg sefydliadau sy'n ymwneud a mynd i'r afael â thanau bwriadol. Mae'r prif broblemau yn cynnwys tanau glaswellt a mynydd a all effeithio llawer ar yr amgylchedd a chymunedau. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Tân ac Achub a'r AALl er mwyn gwella diogelwch mewn ysgolion (ffensys diogel, storio biniau ac ati) gan gyfrannu at gynaliadwyedd ystadau ysgolion.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

71. Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi nodi ei bod hi'n falch iawn o ymateb i'r Pwyllgor Datblygu Cynaliadwy ar brif ffrydio datblygu cynaliadwy. Gall y GIG yng Nghymru ymfalchïo yn ei lwyddiant yn cymryd camau ymarferol i wynebu heriau Cynllun Datblygu Cynaliadwy'r Cynulliad. Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi bod yn awyddus i hyrwyddo'r datblygiadau lle bo'n bosibl. Mae'n gobeithio y bydd y wybodaeth a gasglwyd yma, sy'n cynrychioli rhai o brif feysydd ei phortffolio, o ddefnydd i'r Aelodau.

Cymru'n Un Cenedl Un Blaned

72. Yn *Cymru'n Un Cenedl Un Blaned*, dyma'r camau allweddol ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer sicrhau dyfodol iach a chynaliadwy i Gymru:

- Buddsoddi £190 miliwn yn iechyd y cyhoedd a gwella iechyd trwy Fframwaith Strategol ar gyfer Iechyd y Cyhoedd i Gymru, *Ein Dyfodol Iach*; a
- Rhoi datblygu cynaliadwy wrth graidd holl waith y GIG ar ôl ei ailstrwythuro.

73. Mae'r ddwy Adran sy'n arwain ar faterion iechyd a gofal cymdeithasol yn cyflawni o safbwynt her y Cynllun Datblygu Cynaliadwy sef sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw 'egwyddor drefnu ganolog' eu gwaith. Mae cynnydd sylweddol yn cael ei gyflawni yn y GIG ac ar draws amrywiaeth o bolisïau a rhaglenni yn yr Adrannau.

Ynni Ystadau'r GIG

74. Mae 57 safle mwyaf y GIG yng Nghymru yn defnyddio tariffau trydan di-garbon i gyflenwi eu trydan grid (89% o'r trydan grid a ddefnyddir gan y GIG Cymru) sy'n arbed 73,500 tunnell o allyriadau $CO_2$ bob blwyddyn yn erbyn y ffigur cyfwerth ar gyfer tariffau confensiynol.

75. Mae dadansoddiad cychwynnol o ddatganiadau ynni 2008/09 yn dangos bod ysbytai Cymru yn cynhyrchu 9% o'u hanghenion ynni o setiau Gwres a Phŵer Cyfunedig (CHP) ar hyn o bryd. Mae hyn bron ddwywaith cymaint â'r flwyddyn cynt a disgwylir iddo gynyddu mwy eto pan fydd y systemau newydd yn gweithredu'n llawn.

76. Ar safle ysbyty fwyaf Cymru, Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd, mae gwaith wedi'i gwblhau'n ddiweddar i ddisodli'r unedau CHP oedd braidd yn hen gyda modelau newydd i gyfrannu at fodloni'r galw am wres a thrydan. Cwblhawyd y prosiect ym mis Ionawr 2009 ac mae'n gweithredu'n llawn. Bydd yn gwneud cyfraniad sylweddol at alw blynyddol y safle am nwy a thrydan:

- credir mai dyma'r gosodiad newydd mwyaf yn y GIG
- amcangyfrifir bod CHP yn arwain at arbedion carbon posibl o dros 3000 tunnell o $CO_2$ y flwyddyn o gymharu â thrydan sy'n cael ei gyflenwi o'r grid traddodiadol
- mae 'r gwaith o osod CHP y costio tua £3.8 miliwn gydag amcangyfrif o arbedion ariannol o £1.6 miliwn yn ôl prisiau ynni cyfredol sy'n rhoi ad-daliad economaidd ffafriol iawn i'r cynllun.

77. O 2006 ymlaen, dyrannodd yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol £3 miliwn dros 3 blynedd, o Raglen Gyfalaf Cymru Gyfan y GIG fel Cronfa Ynni Ganolog (CEF). Roedd hyn yn galluogi Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru i fuddsoddi mewn mentrau effeithlonrwydd ynni a thechnolegau carbon isel nad oedd yn ddrud iawn. Roedd y rhaglenni'r pedair ar ddeg Ymddiriedolaeth a dderbyniodd arian trwy'r CEF yn cynnwys 149 o gynlluniau unigol, ac roedd y cynlluniau hyn gyda'i gilydd yn rhoi cyfanswm o 13,400 tunnell o arbedion $CO_2$ posibl.

78. Mae amrywiaeth y mesurau effeithlonrwydd ynni a ariannwyd hyd yma trwy'r CEF wedi cynnwys:

- Gosod golau Deuodau Allyrru Golau (LED) ynni isel y tu allan,
- Disodli'r llosgyddion ar beiriannau bwyleri nwy sy'n bodoli eisoes i wella effeithlonrwydd y bwyleri,
- Gwelliannau i osodiadau i leihau colledion ynni,
- Gosod gwell rheolyddion golau y tu mewn megis synwyryddion golau a synwyryddion symudiad ynghyd â gosodiadau golau mwy effeithlon,
- Gosod bwyleri cyddwyso effeithlon iawn i ddisodli'r bwyleri aneffeithlon a defnyddir ar hyn o bryd a chynorthwyo i leihau allyriadau carbon a chostau,
- Gosod moduron pympiau gyrru cyflymder amrywiol effeithlon iawn.

Adrodd ar berfformiad

79. Mae Ystadau Iechyd Cymru yn casglu datganiadau data amgylcheddol bob blwyddyn ac yn dadansoddi perfformiad amgylcheddol y GIG yng Nghymru trwy ei System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau. Bob blwyddyn mae'n cyflwyno ei ganfyddiadau mewn Adroddiad ar Gyflwr a Pherfformiad yr Ystad. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad o berfformiad ynni, allyriadau carbon, gwastraff, trafnidiaeth a defnydd o ddŵr.

Gwastraff

80. Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad a GIG Cymru Strategaeth Gwastraff Gofal Iechyd ym mis Mehefin 2006, a oedd yn cynnwys targedau ar gyfer lleihau ac ailgylchu gwastraff i'w cyrraedd erbyn 2010. Mae enghreifftiau cyfredol o sicrhau cyn lleied â phosibl o wastraff amgylcheddol ac arferion ailgylchu da yn cynnwys y canlynol:

- Mae gan Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd Gwent raglen bwysig o wahanu gwastraff ac mae cyfleusterau ailgylchu cymysg wedi'u cyflwyno gyda rhai ysbytai yn ailgylchu dros 50% o'u gwastraff domestig o ganlyniad,

- Buddsoddodd Ymddiriedolaeth Gogledd Cymru mewn cyfarpar i adfer olew gwastraff o'r ceginau i'w drawsnewid i fio-diesel i'w ddefnyddio ar gyfer cerbydau a chyfarpar cynnal a chadw tir,

- Mae sawl Ymddiriedolaeth wedi buddsoddi mewn cyfarpar byrnu a chywasgu i wella'r gwaith o ailgylchu deunydd pacio cardfwrdd a gwastraff papur.

Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM)

81. Mae Dull Gofal Iechyd BREEAM a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2008 yn ddull ail genhedlaeth gyda mwy o bwyslais ar faterion cynaliadwyedd a charbon isel. Fe'i datblygwyd gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladu mewn partneriaeth â'r Adran Iechyd ac Ystadau Iechyd Cymru. Mae Gofal Iechyd BREEAM bellach wedi'i gynnwys ym mhroses achos busnes ar gyfer caffael cynlluniau cyfalaf pwysig.

82. Mae technolegau carbon isel a di-garbon mewn prosiectau mawr yn y GIG yng Nghymru yn cael eu datblygu trwy gyflwyno Gofal Iechyd BREEAM ac mae nifer o enghreifftiau da yn enwedig o ran cyflyno bwyleri biomas. Mae dau ddatblygiad ysbyty newydd yng Nghymru, Ysbyty Cwm Rhondda yn Llwynypia ac Ysbyty Alltwen ym Mhorthmadog yn gosod bwyleri biomas i ddarparu gwres a dŵr poeth.

83. Mae datblygiadau ysbytai pellach yng Ngwent hefyd yn ymchwilio i ba mor ymarferol yw defnyddio bwyleri biomas i ddarparu eu hanghenion gwres â dŵr poeth a bydd datblygiad newydd Ysbyty Aneurin Bevan yn gosod bwyler biomas.

Cynlluniau Teithio

84. Yn 2008 lansiodd Ystadau Iechyd Cymru becyn cymorth cynlluniau teithio a all gyfrannu at leihau allyriadau carbon a chynorthwyo Ymddiriedolaethau'r GIG i ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Teithio. Bydd Ymddiriedolaethau'n gallu cael cymorth, cyngor ac arweiniad gan Ystadau Iechyd Cymru, is-grŵp trafnidiaeth a theithio Fforwm Amgylcheddol Iechyd Cymru, Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol Llywodraeth y Cynulliad, Cydgysylltydd Teithio Cynaliadwy y GIG (a gyflogir gan Sustrans, a'i ariannu gan Lywodraeth y Cynulliad) ac asiantaethau cymorth eraill.

Rhannu Arferion Da

85. Sefydlwyd Fforwm Amgylcheddol Iechyd Cymru i weithredu fel fforwm canolog ar gyfer y GIG yng Nghymru lle rhenni syniadau, camau gweithredu ac arferion da rhwng Ymddiriedolaethau'r GIG ac i weithredu fel pwynt cyswllt canolog rhwng y gwasanaeth ac Ystadau Iechyd Cymru.

86. Hwylusir y fforwm gan Ystadau Iechyd Cymru ac mae ganddo ei wefan ei hun ar gyfer dosbarthu gwybodaeth sydd hefyd yn gweithredu fel porth cyfathrebu yn cysylltu'r holl Ymddiriedolaethau yng Nghymru ar gyfer materion amgylcheddol. Hefyd, mae gan y fforwm nifer o is-grwpiau ar Ynni, Gwastraff a Thrafnidiaeth, sy'n cael eu defnyddio i hwyluso camau gweithredu a gwneud cynnydd ar faterion unigol o dan y penawdau hyn.

87. Mae Wythnos Amgylchedd y GIG bellach yn ddigwyddiad codi ymwybyddiaeth blynyddol a gynhelir yn yr Ymddiriedolaethau ledled Cymru ac yn cyd-ddigwydd â Diwrnod Amgylchedd y Byd ac Wythnos Werdd Ewrop ddechrau mis Mehefin. Nod Wythnos Amgylchedd y GIG yw codi ymwybyddiaeth staff, cleifion ac ymwelwyr trwy arddangosiadau, taflenni a phosteri a chynhelir y pumed Wythnos Amgylchedd yn 2009.

Diwygiadau'r GIG

88. Mae'r cyfleoedd newydd i leihau effaith amgylcheddol y GIG ar ei newydd wedd a'i gyfraniad at ddatblygu cynaliadwy yn gyffredinol yn ceisio manteisio ar Grŵp Llywio Datblygu Cynaliadwy ac Iechyd diwygiedig. Bydd hwn yn cynnwys cyrff newydd a chaiff eu cyfrifoldebau eu gwneud yn glir yn y trefniadau llywodraethu newydd. Bydd y Grŵp Llywio hefyd yn ail-ddatblygu pecyn cymorth Datblygu Cynaliadwy y GIG.

Gweithio gyda Gwasanaethau Cymdeithasol

89. Mae cyfrifoldeb am ddatblygu cynaliadwy mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol yn nwylo Llywodraeth Leol. Bydd yr adrannau yn cydweithio â nhw ar y mater hwn ac yn adolygu cyfleoedd

yn y trefniadau rheoleiddio a chomisiynu ar gyfer hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

Ein Dyfodol Iach

90. Mae gwella cynaliadwyedd yn galw am leihau salwch y gellir ei osgoi. Mae amgylcheddau ac ymddygiad afiach a'r salwch a'r niwed y gallant eu hachosi, yn rhoi baich sylweddol y gellir ei osgoi ar unigolion, teuluoedd, cymunedau a sefydliadau. Hefyd mae hyn yn creu costau i'r GIG a gwasanaethau cymorth eraill ac yn lleihau gallu cynhyrchiol. Mae'r beichiau hyn yn anferth a gallant fod yn anghynaliadwy yn y dyfodol. Mae angen gweithredu i fynd i'r afael â'r achosion a sicrhau bod ymyriadau i ymdrin â'r problemau sydd yn codi mor effeithiol ac effeithlon â phosibl.

91. Yn y cyd-destun hwn, mae'r gwaith o ddatblygu *Ein Dyfodol Iach*, yn mynd rhagddo'n dda ac mae'n cael ei ystyried gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae ei amcanion a'i themâu yn ategu'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy, ac yn canolbwyntio ar gyflawni newid cydunol tuag at wella iechyd ac ymyrraeth gynnar i gynorthwyo i greu cymunedau iach, cynaliadwy a lleihau gwahaniaethau y gellir eu hosgoi mewn iechyd pobl. Yn y GIG, mae ymdrechion gyda ffocws pendant i fesur a gwella ansawdd, gan gynnwys camau i wella diogelwch cleifion a gorfodi effeithlonrwydd hefyd wedi cychwyn. Un o amcanion cyffredinol ar gyfer *Ein Dyfodol Iach* yw bod sefydliadau ac unigolion yng Nghymru yn cydweithio ar gyfer dyfodol cynaliadwy trwy "atal yr hyn y gellir ei atal" mewn perthynas ag achosion salwch ac anghydraddoldebau iechyd.

92. Yn y tymor hirach, dylai'r dull hwn arwain at well ansawdd bywyd i'n cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol gan ddefnyddio dull atal gweithredol trwy'r llwybr iechyd gydol oes a sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio i'r pwrpas gorau.

Gwella Iechyd

93. Mae cyllid ar gyfer Cynllun Grant Sector Gwirfoddol Her Iechyd Cymru o fis Ebrill 2008 i fis Mawrth 2011 yn cynorthwyo tri phrosiect sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd trwy bartneriaethau gyda'r trydydd sector. Mae'r Bartneriaeth Ymarfer Gwyrdd, sy'n cynnwys Sustrans Cymru, BTCV Cymru a Groundwork Cymru yn darparu rhaglen leol o weithgareddau at gyfer gwella iechyd yn yr awyr agored naturiol. Mae'r bartneriaeth hon yn hyrwyddo gweithgareddau cynaliadwy gan gynnwys gwirfoddoli, teithio byw, garddio a chadwraeth, tyfu cynnyrch, adfywio ac ymwybyddiaeth o natur.

94. Mae'r Prosiect Ewch i Goginio sy'n cael ei ddarparu gan Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched yng Nghymru yn cynnal cyrsiau coginio am ddim i rieni ledled Cymru gan weithio gyda'r Bws Coginio, Cydgysylltwyr Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a Phartneriaethau

Cymunedau yn Gyntaf. Mae Cydgysylltwyr a thiwtoriaid y Prosiect yn cymryd rhan mewn cynllun peilot Llywodraeth y Cynulliad sy'n treialu 'pecyn cymorth archwilio lles cynaliadwy'. O ganlyniad rhoddir gwybodaeth ychwanegol i'r cyfranogwyr ar bynciau sy'n cynnwys ailgylchu bwyd a gwastraff, arbed ynni a siopa'n lleol.

95. Mae Rhwydwaith Lles Cymru yn hwyluso'r gwaith o gynnwys lles wrth ddatblygu polisïau a gwasanaethau lleol. Mae'r rhwydwaith hefyd yn treialu'r 'pecyn cymorth archwilio lles cynaliadwy', sy'n asesu lefelau lles a chynaliadwyedd amgylcheddol mewn polisïau a gwasanaethau awdurdodau lleol a sefydliadau sector gwirfoddol. Mae'r Rhwydwaith yn adrodd ar werthuso treialu'r pecyn cymorth yn ei adroddiadau 6 misol a diwedd blwyddyn. Bydd hefyd yn ail-edrych ar gynlluniau peilot a gwblhawyd yn 2010-11 i werthuso'r gwaith o weithredu'r argymhellion.

Y Safon Iechyd Gorfforaethol

96. Mae codi ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd yn elfen allweddol o'r agenda iechyd a gwaith. Y Safon Iechyd Gorfforaethol yw marc ansawdd cenedlaethol iechyd a lles mewn busnesau a sefydliadau ledled Cymru. Mae'r dyfarniad lefel Platinwm yn cydnabod cyflogwyr sy'n dangos datblygu cynaliadwy fel rhan annatod o'u hymarfer a diwylliant busnes. Datblygwyd y meini prawf hyn mewn partneriaeth â'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru ac mae'n ymdrin â phynciau trafnidiaeth, adeiladu cyfalaf, gwastraff, ymgysylltu cymunedol, cyflogaeth a sgiliau a rheoli cyfleusterau. Rhaid i ymgeiswyr am y dyfarniad lefel Platinwm ddarparu astudiaeth achos ar eu cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol a gwaith datblygu cynaliadwy.

97. Ym mis Medi 2009, cyflwynwyd y ddau ddyfarniad lefel Platinwm cyntaf yng Nghymru i Orsaf Bŵer Wylfa, Sir Fôn a Chyngor Sir Caerfyrddin. Cyflwynodd Gorsaf Bŵer Wylfa astudiaeth achos gref ar ymgysylltu â dinasyddion a chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol tra roedd astudiaeth achos Cyngor Sir Caerfyrddin yn canolbwyntio ar gaffael lleol cynaliadwy.

98. Fel rhan o ddarpariaeth barhaus y rhaglen Safon Iechyd Gorfforaethol, bydd Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd yn ymgysylltu â sefydliadau newydd y GIG i'w hannog i weithio tuag at y dyfarniadau lefel Platinwm. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, fel darparwr y Safon Iechyd Gorfforaethol, yn annog busnesau a sefydliadau sydd â'r dyfarniadau lefel aur ar hyn o bryd i fynd ymlaen i'r lefel platinwm.

Diogelu Iechyd

99. Sefydlodd Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd Weithgor Newid yn yr Hinsawdd ac Iechyd aml-asiantaeth i gydgysylltu ymateb iechyd i Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd Llywodraeth y Cynulliad. Y weledigaeth ar gyfer y grŵp hwn oedd sefydlu dull cynaliadwy hirdymor i

fynd i'r afael â bygythiadau iechyd yn sgil newid yn yr hinsawdd i Lywodraeth y Cynulliad.

100. Hefyd, mae Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd wedi bod yn cyflawni gwaith i leihau goblygiadau iechyd tywydd poeth. Cyhoeddwyd Cynllun terfynol Tywydd Poeth i Gymru 2009: Fframwaith ar gyfer Paratoi ac Ymateb yn electronig ar wefan Llywodraeth y Cynulliad ym mis Mehefin 2009 a'i e-bostio at yr holl gyrff ac asiantaethau Rhanddeiliaid yng Nghymru. Nod y cynllun yw rhybuddio asiantaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac asiantaethau gofal eraill ac aelodau'r cyhoedd o beryglon gwres eithafol, a darparu fframwaith i arwain a chynorthwyo gweithredu cydgysylltiedig a chydweithredol yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol mewn ymateb i wres eithafol a thywydd poeth yng Nghymru.

101. Ail-edrychir ar y Cynllun, fel bo angen, a'i ail-gyhoeddi yn flynyddol. Fel rhan o'r Fframwaith, mae'r Adran yn llofnodi contract gyda'r Swyddfa Dywydd i ddarparu rhybuddion tywydd poeth i randdeiliaid o 1 Mehefin i 15 Medi bob blwyddyn. Mae sicrhau bod cynlluniau effeithiol ar waith i ymateb i dywydd poeth yn elfen hanfodol o'r cynllunio at argyfwng a bydd yn dod yn gynyddol berthnasol fel ymateb i effaith newid yn yr hinsawdd. Mae system gadarn ar gyfer ymdrin â sefyllfaoedd tywydd poeth posibl yng Nghymru yn bwysig o ystyried y rhagfynegiadau y bydd hafau'r dyfodol yn boethach.

102. Mae hafau poethach a bod allan fwy yn yr haul yn cynyddu'r risg o ddatblygu canser y croen. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cefnogi Herio'r Haul, ymgyrch atal canser y croen genedlaethol y DU, ers ei lansio yn 2003. Mae'r ymgyrch, a reolir gan Ymchwil Canser y DU ar ran pedair adran iechyd y DU yn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o beryglon canser y croen a'r angen i fabwysiadu ymddygiad amddiffyn rhag yr haul.

<u>Y Gweinidog dros Dreftadaeth:</u>

103. Lansiwyd y Fframwaith Twristiaeth Cynaliadwy ym mis Tachwedd 2007. Sefydlodd Croeso Cymru Fforwm Twristiaeth Cynaliadwy sydd wedi bod yn cyfarfod bob 6 mis ers mis Tachwedd 2007. Er mwyn cynorthwyo'r fframwaith datblygwyd Cynllun Gweithredu Twristiaeth Gynaliadwy gyda chymorth y Fforwm i gyflawni'r Fframwaith.

104. O dan nawdd y Fforwm sefydlwyd grŵp Gorchwyl a Gorffen Trafnidiaeth a Thwristiaeth Gynaliadwy i nodi ffyrdd y gall y sectorau twristiaeth a thrafnidiaeth gyhoeddus gydweithio'n agosach ac mae wedi cyflwyno ei adroddiad i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Dreftadaeth. Caiff yr adroddiad ei lansio gan y Gweinidogion mewn seminar ar 4 Tachwedd. Hefyd, comisiynwyd astudiaeth ar effaith newid yn yr hinsawdd a thwristiaeth a fydd yn cael ei chyflwyno yn yr hydref ac mae Croeso Cymru yn cydweithio'n agos gyda'r tîm Newid yn yr Hinsawdd.

105. Mae Croeso Cymru yn cymryd rhan yn y grŵp Twristiaeth Gynaliadwy Prydain ac Iwerddon sy'n ymwneud â byrddau twristiaeth cenedlaethol yn cyfnewid profiad a chomisiynu ymchwil ar y cyd. Hefyd, mae Croeso Cymru wedi ymuno ag ERNEST, Rhwydwaith Ewropeaidd ar gyfer gwaith ymchwil ym maes Twristiaeth Gynaliadwy i rannu arferion gorau a phrofiadau ar lefel Ewropeaidd.

106. Mae gwaith yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd i wella ein dealltwriaeth o raddfa effeithiau amgylcheddol Twristiaeth trwy ddatblygiad gan Uned Ymchwil Economaidd Cymru sef Is-gyfrif Twristiaeth i Gymru, i'n galluogi i gael gwell dealltwriaeth o ddewisiadau polisi i leihau'r effeithiau hyn.

107. Ar lefel rhaglen, mae Croeso Cymru yn parhau i weithio trwy'r Fforwm ar nifer o brosiectau twristiaeth gynaliadwy sy'n cynnwys cyflwyno arfer gorau yn y cynllun Graddio wedi'i Gysoni, rhaglen ddilysu y DU gyfan gyda Visit Britain i asesu achrediad gwyrdd yn ogystal â gwella 'r gwaith o gyfathrebu cyngor a chanllawiau i'r diwydiant trwy'r porth Cymorth Hyblyg i Fusnes, cyflwyno pecynnau cymorth ac astudiaethau achos.

108. Yn ddiweddar, derbyniodd Croeso Cymru gymeradwyaeth ar gyfer 2 brosiect UE strategol, gwerth £35 miliwn, ar dwristiaeth gynaliadwy ac arfordirol. Bydd y ddau brosiect yn datblygu canolfannau strategol rhagoriaeth twristiaeth yng Nghymru yn seiliedig ar yr amgylchedd adeiledig a'r amgylchedd naturiol. Twristiaeth gweithgareddau yw canolbwynt y 2 brosiect.

109. Mae Cadw yn cyfrannu'n ymarferol i hyrwyddo cerdded, seiclo a dewisiadau trafnidiaeth mwy gynaliadwy mewn perthynas â'r henebion sydd yng ngofal Llywodraeth y Cynulliad, er enghraifft:
   a. Rydym yn cymell teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ac mae gennym drefniadau ar waith gyda gweithredwyr Rheilffyrdd - Pas Fflecsi Crwydro Cymru a chyda Rheilffyrdd y Cambrian gyda'r ddau yn cynnig mynediad 2 am bris 1; mae cynnig gyda chwmni teithio bysiau National Express yn cael ei drafod.
   b. Bydd Cadw yn cymryd rhan mewn rhaglen sy'n cael ei datblygu gan Croeso Cymru sy'n cynnwys pecyn gydag atyniadau, darparwyr llety a gweithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus. Bydd y cynigion yn barod erbyn mis Tachwedd.
   c. Mae Cadw yn marchnata ac mae deunyddiau hyrwyddo yn cynnwys gwybodaeth am y llwybr Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol a chyfeiriadau llwybrau troed i gerddwyr. Hefyd, mae yna wybodaeth ychwanegol am lwybrau bysau a threnau trafnidiaeth gyhoeddus yn ogystal â chyfarwyddiadau ar gyfer teithiau ceir.

110. Hefyd mae Cadw yn hyrwyddo effeithlonrwydd ynni ei oleuadau, gan gynnwys:
   a. Cael gwared ar lifoleuadau mewn 17 o safleoedd ledled Cymru, gan gyflwyno ffitiadau Deuodau Allyrru Golau [LED] cenhedlaeth newydd yn eu lle.

b. Mae'r cynllun goleuadau eco yn dangos ymrwymiad Cadw tuag at agenda gynaliadwyedd Cymru gyfan a dymuniad i leihau allyriadau CO2 a gostwng costau ynni.
c. Hefyd, mae Cadw yn bwriadu cyflwyno datblygiadau goleuadau eco ym mhob rhan o Gymru ac yn bwriadu datblygu system micro-eneradu dŵr mewn nifer o safleoedd i hyrwyddo cynaliadwyedd a lleihau'r defnydd o ynni.

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Swyddogaeth APADGOS

111. Mae'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) wedi defnyddio diffiniad eang o ddatblygu cynaliadwy yn ei bolisïau sef, gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau Cymru. Mae newid yn yr hinsawdd yn ffactor pwysig ym mhenderfyniadau APADGOS o ran agwedd amgylcheddol datblygu cynaliadwy. Caiff ei reoli fel cyfyngiad pwysig ynddo'i hun ond fe'i hystyrir yng nghyd-destun ystyriaethau datblygu cynaliadwy ehangach hefyd.

112. Mae gan wasanaethau i blant a dysgwyr o bob oed gyfraniad pwysig i'w wneud ledled Cymru. Nid yn unig o ran rheoli ystadau, ond yn arwyddocaol, yn y gwaith o newid agwedd, a rhoi i'r bobl y sgiliau a'r ymddygiad sydd eu hangen arnynt i fyw, dysgu a gweithio mewn Cymru gynaliadwy. Mae APADGOS yn cefnogi amrywiaeth o weithgareddau er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd, a bydd polisïau allweddol yr adran yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddarparu datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae trosolwg cyffredin o'n polisïau blaenllaw yn APADGOS yn dangos dull cydlynol. Wrth gael eu cynnwys yn systemau ysgolion mae APADGOS yn cynnal y twf a'r lles hwnnw trwy ein gwasanaethau ieuenctid a rhaglenni cyfranogi a thrwy wneud polisïau APADGOS yn gydnaws â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC).

Y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

113. Cydnabyddir bod y cychwyn gorau posibl a chyfleoedd i ddysgu yn sylfaenol ar gyfer codi cyrhaeddiad. Gwyddom fod y blynyddoedd cynnar, fwy nag ar unrhyw adeg arall yn ystod taith dysgwr, yn hanfodol er mwyn datblygu a gwella deilliannau a chyfleoedd bywyd cadarnhaol i unigolion.

114. Y gydnabyddiaeth honno sydd wedi symbylu'r Cyfnod Sylfaen sy'n ddatblygiad cwricwlwm cyfannol yn seiliedig ar anghenion plentyn unigol i fodloni ei gam datblygu. Mae'n rhoi pwyslais mawr ar ddatblygu lles personol, cymdeithasol a deallusol plant ac yn ymdrechu i ymsefydlu'r sgiliau hyn i bara am oes. Mae'r cwricwlwm yn meithrin agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu fel eu bod am ddatblygu'n ddysgwyr gydol oes, diweddaru eu sgiliau a dysgu sgiliau o'r newydd wrth i ofynion y byd

newid. Mae APADGOS yn addysgu pobl ifanc Cymru o'r dechrau i werthfawrogi'r amgylchedd a'i adnoddau trwy un o'r meysydd dysgu yn y rhaglen hon. Mae'n darparu cyfleoedd i blant ddangos gofal a chael parch tuag at bopeth byw a'r amgylchedd.

115. Mae Ysgolion, Awdurdodau Lleol, a Phartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn cydweithio i sicrhau bod digon o ofal plant ar gael i ddiwallu anghenion pob teulu. Trwy'r cynllun Dechrau'n Deg ac Ysgolion Bro mae APADGOS yn darparu rhaglen lawn o gyngor, canllawiau a chymorth i sicrhau bod gofal plant cyffredinol ar gael

116. Gweithgarwch allweddol arall yw'r Canolfannau Plant Integredig, sy'n seiliedig ar y cysyniad o ddarparu addysg, gofal a chymorth teulu a gwasanaethau iechyd integredig. Mae'r canolfannau hyn yn cyfrannu'n allweddol at sicrhau canlyniadau da i blant a'u rhieni, gan roi'r cychwyn gorau mewn bywyd i blant a datblygu cynaliadwyedd cymdeithasol a chymunedol.

Plant a Phobl Ifanc

117. Er mwyn sicrhau bod plant yn parhau i ddysgu wrth iddynt symud o gwricwlwm seiliedig ar chwarae i gwricwlwm wedi'i leoli yn yr ystafell ddosbarth, mae ein Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn sail i'n gwaith trwy bartneriaethau ar dair lefel h.y. llywodraeth, awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae hyn yn cynorthwyo i gael dull cynaliadwy ar gyfer datblygu darpariaeth o ansawdd a darparu ar gyfer ein plant.

118. Mae'r cwricwlwm diwygiedig sy'n cael ei weithredu o fis Medi 2008 ymlaen, yn cefnogi egwyddorion datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang drwyddo draw. Er enghraifft, yng nghwricwlwm gwyddoniaeth, rhan o'r cynnwys a fydd yn ymddangos ym mhob cyfnod allweddol yw "Y Ddaear Gynaliadwy ". Yng Nghyfnod Allweddol 2, dylai disgyblion gael cyfle i astudio beth yw gwastraff a beth sy'n digwydd i wastraff lleol. Yng Nghyfnod Allweddol 3, dylai disgyblion gael cyfle i ddeall materion allweddol datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, a'r angen i ystyried penderfyniadau personol. O'r Cyfnod Sylfaen trwodd i ddiwedd addysg orfodol, mae plant Cymru yn cael eu dysgu i werthfawrogi a deall effeithiau penderfyniadau ar adnoddau, pobl a'r amgylchedd, gan greu cenedlaethau o bobl sydd â gwybodaeth gynyddol am y pynciau hyn.

119. Mae datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn thema allweddol yn y fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer pobl ifanc 7 i 19 oed yng Nghymru.  Mae Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) y ceisio canfod ffyrdd o godi ymwybyddiaeth a chyflawni camau gweithredu i fynd i'r afael â chanlyniadau ein dewisiadau ynghylch ein ffordd o fyw ac yn ein paratoi ar gyfer byw'n gynaliadwy yn y 21ain ganrif fel dinasyddion byd-eang. Mae'n ddull cyfannol o addysgu sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer yr heriau newydd a fydd yn rhan o'u dyfodol megis newid yn yr hinsawdd a

chystadleuaeth ryngwladol am adnoddau. Mae cynllun gweithredu ADCDF wedi cyflawni 81% o'i gamau gweithredu, a rhagwelir y bydd hyn yn codi i 95% erbyn diwedd ei blwyddyn derfynol. Mae'r cynllun gweithredu yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.

120. Mae'r ADCDF hefyd yn rhan o gyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon sy'n bodloni Safon Statws Athro Cymwysedig, ond dim ond un rhan fach o'n menter addysgeg. Bydd y canolbwynt ar addysgeg yn creu cyfleoedd i ymarferwyr rannu a datblygu'r arferion da y gwyddom sy'n bodoli ledled y wlad ac i bartneriaethau mwy eang gael eu sefydlu. Mae addysgeg a datblygu sgiliau addysgu a dysgu yn cysylltu'n benodol â Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd, a bydd yn darparu canolbwynt strategol ar gyfer adolygiad Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) yng Nghymru a gynhelir yn fuan.

121. Gydol y profiad dysgu mae'r Fenter Addysgeg wedi'i llunio i wella ansawdd a chysondeb ein hymarferwyr addysgu i feithrin y dysgu hwn a chynorthwyo ein pobl ifanc. Gan ddefnyddio tystiolaeth ryngwladol, mae'r polisïau hyn yn cyfuno'n dda i greu'r sylfeini ar gyfer y system ysgol orau wedi'i llunio i ddatblygu'r unigolyn fel unigolyn cyfan a dysgwr llwyddiannus.

122. Hefyd, mae APADGOS yn datblygu gwasanaethau sydd ar gael i bob disgybl ysgol, gan roi'r hyder iddynt y bydd cwnsela eu hanghenion yn cael gwrandawiad a sylw. Mae hyn yn ategu'r amrywiaeth o ddulliau sydd eisoes ar gael mewn ysgolion i helpu i gynorthwyo anghenion iechyd, anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion ac arwain at raglen ddiwylliant ysgol iach megis Cynllun Gweithredu Blas am Oes sy'n cydnabod yr angen i sefydlu egwyddorion datblygu cynaliadwy wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau sy'n ymwneud ag agenda cyflenwi bwyd mewn ysgolion. Mae APADGOS yn cydweithio â'r AIGC i gysylltu â Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a all ddarparu cymorth ychwanegol i'r rhai sydd ei angen. Mae ysgolion sy'n hyrwyddo iechyd a lles disgyblion hefyd yn fwyd tebygol o greu amgylchedd dysgu effeithiol.

Amgylcheddau Dysgu

123. Mae APADGOS hefyd wedi buddsoddi yn y gwaith o sicrhau bod plant a phobl ifanc yn dysgu mewn amgylcheddau sy'n meithrin eu datblygiad, ond hefyd sy'n bosibl i'w rheoli ac yn gynaliadwy i'r llywodraeth a phartneriaid darparu. Mae APADGOS yn datblygu gweledigaeth gyffredin Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif trwy weithio mewn partneriaeth â CLILC a'r holl Awdurdodau Lleol. Bydd darparu Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn cyflwyno newid sylweddol yn y rhaglen fuddsoddi cyfalaf er mwyn mynd i'r afael â'r hen broblem o gyflwr ac addasrwydd ysgolion yng Nghymru a chynorthwyo Awdurdodau Lleol gyda'u cynlluniau ar gyfer ad-drefnu ysgolion. Mae'n cynrychioli'r dull strategol ar gyfer ariannu, cynllunio a chaffael gan gynnwys integreiddio TGCh sy'n cael ei

weithredu, a bydd ansawdd cynllunio a chynaliadwyedd yn nodweddion pwysig hefyd.

124. Ond dim ond rhan o swyddogaeth APADGOS yw ysgolion. Mae hefyd yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cynnig cymorth cynaliadwy cydgysylltiedig wrth ddatblygu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc, y mae awdurdodau lleol a'u partneriaid yn eu defnyddio i gydweithio er mwyn cytuno ar eu blaenoriaethau a'u cyfrifoldebau ar gyfer eu gweithredu. Mae'r partneriaid yn cydweithio i ddatblygu ffyrdd o gynorthwyo pobl ifanc e.e. trwy Wasanaethau Cymorth Ieuenctid, sy'n ceisio datblygu sefydlogrwydd cymdeithasol a chydlyniad cymunedol. Mae Canllawiau'n cael eu paratoi ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol gyda diwygiadau yn ystyried y datblygiadau a'r gwersi a ddysgwyd. Bydd yn sicrhau ei fod yn cynorthwyo awdurdodau lleol a'u partneriaid i gydgysylltu a sicrhau darpariaeth Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yng nghyd-destun Cynllun Plant a Phobl Ifanc.

125. Fodd bynnag, os ydym ni'n mynd i ddefnyddio'r holl ddoniau sydd gan Gymru i'w cynnig mae angen i ni amddiffyn a meithrin aelodau mwy agored i niwed mewn cymdeithas. Mae ffigurau Pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEETs) a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn dangos nad yw 20.3 y cant o bobl ifanc 19-24 oed a 13.5 y cant o bobl ifanc 16-18 oed mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Dangosodd astudiaeth ar gyfer y cyfnod 2005-2007 nad oedd gan 31 y cant o'r grŵp hwn unrhyw gymwysterau o gymharu â dim ond 7 y cant o'r rhai nad ydynt yn NEET. Cyhoeddodd APADGOS Gynllun NEETs ym mis Mawrth 2009 ar ôl ymgynghori'n helaeth ar y dulliau gorau. Mae rhan allweddol o'r dull yn ymwneud â sicrhau bod y cymhellion a'r gefnogaeth yn briodol, ac mae deall materion ariannol a rheoli cymorth myfyrwyr yn her allweddol.

126. Bydd APADGOS yn adolygu'r mathau o gymorth ariannol a gynigir i bobl ifanc 16-19 oed gyda'r bwriad o gyflawni cydraddoldeb da yn ogystal â chynnal gwerthusiad o'r cynllun Lwfans Cynhaliaeth Addysg yng Nghymru er mwyn asesu ffyrdd o wneud y gorau o botensial y cynllun er mwyn cadw a bwrw ymlaen â dysgu pobl ifanc.

127. Hefyd, mae agwedd Llywodraeth y Cynulliad tuag at droseddwyr ifanc - fel yr amlinellir yn Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan - sef eu hystyried fel pobl ifanc yn gyntaf ac fel pobl sydd wedi ymddwyn yn droseddgar yn ail. Mae tystiolaeth yn awgrymu mai addysg yw'r ffactor unigol pwysicaf er mwyn atal ail-droseddu. Gan gadw hynny mewn cof mae APADGOS yn treialu rhaglenni i gynorthwyo troseddwyr ifanc i ddysgu trwy dargedu'r defnydd o gyllid Ewropeaidd.

128. Erbyn bod pobl ifanc Cymru yn barod i adael addysg orfodol, byddant wedi cael profiad o'r Llwybrau Dysgu 14-19 sy'n ymestyn cyfleoedd a dewis sydd wedi'u llunio'n arbennig i ddiwallu anghenion yr unigolyn. Bydd ein gwaith o Weddnewid rhwydwaith darparwyr addysg bellach yn galluogi'n darparwyr i ddatblygu sefydliadau sy'n cynorthwyo'r galw am

ddysgu mewn ffordd hyblyg yn unol ag anghenion a chyda cynaliadwyedd wrth wraidd y penderfyniadau hyn.

Sgiliau a Dysgu Uwch

129. Dangosodd adolygiad Leitch y bydd cymdeithas gyda sgiliau uwch yn fwy llewyrchus, gyda chyfraddau uwch o gyflogaeth, lefelau is o dlodi a llai o anghydraddoldeb. Bydd sicrwydd a chynaliadwyedd economaidd pobl yn y dyfodol yn dibynnu ar feddu sgiliau i fanteisio ar gyfleoedd newydd, megis swyddi 'coler werdd' fydd yn cael eu creu wrth i ni symud tuag at economi carbon isel. Erbyn 2010-11, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gwario bron i £2 biliwn y flwyddyn ar addysg a sgiliau. Mae APADGOS wedi gwneud cynnydd da ym maes gwella sgiliau a chynorthwyo pobl i gael swyddi yn y blynyddoedd diwethaf ac mae canlyniadau addysg a sgiliau'r gweithlu wedi gwella.

130. Mae *'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru'* yn mynd i'r afael ag ystod gyfan yr agenda sgiliau, o'r blynyddoedd cynnar trwy ysgolion, Llwybrau Dysgu 14-19 ac ymlaen i addysg uwch, hyfforddiant yn y gweithle a dysgu gydol oes. Mae wedi'i lunio i fod yn ddull cynaliadwy, system gyfan i annog dysgu a datblygiad sgiliau ym mhob rhan o'r sbectrwm addysg gan olygu y gellir dechrau hyfforddi ar sawl adeg.

131. Gan ddechrau gyda gwaith 14 i 19, mae Llwybrau Dysgu 14 – 19 yn ymestyn dewis a chyfleoedd trwy gynnig llwybrau sydd wedi'u llunio'n arbennig i ddiwallu anghenion yr unigolyn. Mae dysgwyr yn gallu:

- Dewis o amrywiaeth ehangach o gyrsiau, gan gynnwys rhai academaidd a galwedigaethol;
- Gallu cael cyfleoedd dysgu ehangach sy'n eu cynorthwyo i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer bywyd; a
- Gallu defnyddio cymysgedd unigryw o wasanaethau cymorth dysgwyr a fydd yn eu cynorthwyo i ddatblygu atebion a goresgyn unrhyw rwystrau rhag dysgu.

132. Er mwyn galluogi pobl ifanc i gael y sgiliau a'r profiad sydd ei angen arnynt, rydym wedi sefydlu rhaglenni hyfforddi prentisiaid. Mae Llwybrau Dysgu Seiliedig ar Waith newydd yn cael eu treialu mewn ysgolion ac mae'r rhain yn rhoi profiad a chymwysterau i bobl ifanc i'w galluogi i fynd ymlaen i hyfforddiant prentisiaid. Hefyd, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio sicrhau bod y prentisiaethau a Bagloriaeth Cymru yn cydweddu'n agos.

133. Roedd Llwybrau Dysgu yn herio'r cysyniadau traddodiadol o gyfleoedd dysgu ac roedd Bagloriaeth Cymru yn darparu fframwaith mwy cyfannol a hyblyg ar gyfer dysgu. Mae hyn yn atgyfnerthu'r dull mae Cymru'n ei ddefnyddio i ddatblygu system addysg a hyfforddiant hyblyg a chynaliadwy sy'n datblygu pobl ifanc yn ôl eu doniau a'u diddordebau a'u galluogi i fod yn aelodau llawn sy'n cyfranogi ac yn weithgar yng nghymdeithas Cymru.

134. O ran datblygiad economaidd a sgiliau hirdymor, mae APADGOS wedi bod wrthi'n ddiwyd yn y gwaith o ddatblygu *'Strategaeth Swyddi Gwyrdd'* yr Adran Addysg a Hyfforddiant ac Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, ac mae hefyd yn cyfrannu at y gwaith o'i gweithredu. Mae'r Adran yn gweithio gyda Thîm Adfywio Blaenau'r Cymoedd, Cynghorau Sgiliau Sector a'r Ganolfan Byd Gwaith i sicrhau bod Academi Sgiliau Gwyrdd Nwy Prydain, sydd i gael ei lleoli yn ardal adfywio Blaenau'r Cymoedd yn cydweddu â chreu Swyddi Gwyrdd yn yr ardal ac yn cefnogi hyn. Mae cysylltu'r gwaith o ddatblygu sgiliau ynni adnewyddadwy â mentrau o'r fath yn edrych ar ffordd integredig o gyflawni amrywiaeth o ganlyniadau cynaliadwy e.e. lleihau tlodi tanwydd, annog effeithlonrwydd ynni a gwneud y gorau o dechnolegau carbon isel, gan gynyddu'r galw am sgiliau. Bydd y fenter hon yn cyfrannu'n helaeth at ddatblygu cynaliadwy a bydd yn cynorthwyo i liniaru newid yn yr hinsawdd.

Ymchwil a Datblygu

135. Mae'r sector AU yn bwysig i'r economi a dyna pam mae APADGOS wedi defnyddio Cyllid Strwythurol yr UE i sicrhau y gellir buddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu o ansawdd da sy'n cael effaith sylweddol. Mae'r Gweinidogion wedi cytuno ar feysydd blaenoriaeth ar gyfer cyllido ar ôl ystyried sectorau strategol cytûn Llywodraeth y Cynulliad, canlyniadau diweddaraf Ymarferiad Asesu Adnoddau ac ymarfer mapio manwl. Un o brif feysydd cyllido Ymchwil a Datblygu yw Economi Carbon Isel (gan gynnwys lliniaru newid yn yr hinsawdd a materion addasu).

136. Yn sgil hyn datblygwyd y Sefydliad Ymchwil Carbon Isel sy'n derbyn cymorth gan Lywodraeth y Cynulliad tan 2013. Dyma'r pedwar prif linyn gweithgarwch:

- Creu, storio a dosbarthu ynni carbon isel
- Lleihau'r galw am ynni gan gynnwys amgylchedd adeiledig di-garbon a gwaith ar gynhyrchu pŵer ar raddfa fawr.
- Ysgol ynni i Raddedigion
- Partneriaethau gyda diwydiant, sefydliadau ymchwil a'r llywodraeth.

137. Hefyd rhoddwyd cyllid Ymchwil a Datblygu i Gonsortiwm Newid yn yr Hinsawdd Cymru gyflawni'r gwaith o ail-drefnu ymchwil newid yn yr hinsawdd a chynyddu gallu cystadleuol rhyngwladol, gyda'r nod o sicrhau cynaliadwyedd. Rydym hefyd yn buddsoddi mewn ymchwil lefel uchel ar effaith newid yn yr hinsawdd a bio-ynni ar amaethyddiaeth a biodanwydd.

Yr Iaith Gymraeg

138. Mae'r iaith Gymraeg yn llinyn sy'n rhedeg trwy'r Adran gyfan. Lluniwyd y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg i gael effaith hirdymor ar gynnal a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwasanaethau addysg. Nod y

Strategaeth yw sefydlu seilwaith cynaliadwy a chyfannol i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg.

139. Mae datblygu cynaliadwy yn amlwg gydol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae'n cynllunio'n strategol ar gyfer dyfodol hirdymor addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn osgoi gorfod ymateb i'r angen am lefydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg fel bo gofyn pan fo plant eisoes o oedran ysgol. Mae defnyddio dull system gyfan yn cynorthwyo APADGOS i gydnabod mai agwedd bwysig yr agenda Ehangu Mynediad yw'r ffaith bod y Gymraeg ar gael ac yn cael ei defnyddio mewn addysg uwch.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Mae'r meysydd uchod ar gyfer datblygu polisi a'i weithredu eisoes yn rhan o'r cyllidebau sy'n bodoli. Yn fwy cyffredinol, mae proses datblygu cynaliadwy fel yr amlinellir yn Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned yn amlygu ei bod yn broses benderfynu ar gyfer y tymor hirach, er lles pobl Cymru, nawr ac yn y dyfodol. Mae datblygu cynaliadwy fel egwyddor drefnu ganolog yn pwysleisio'r angen i ni wneud penderfyniadau mewn ffordd sy'n arwain at ganlyniadau cynaliadwy, ac i weithio'n wahanol i ddarparu'r rhain. Felly, nid ydym yn rhagweld y bydd yna unrhyw gostau ychwanegol o ganlyniad i'r ffaith mai datblygu cynaliadwy yw egwyddor drefnu ganolog Llywodraeth y Cynulliad.

**Argymhelliad 2: Rydym yn argymell y dylid cytuno ar y cysylltiadau hyn gyda'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai a'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth y Cynulliad**

**Ymateb:** Derbyn yn rhannol

140. Rydym yn cytuno ar ran olaf yr argymhelliad, ei bod hi'n bwysig cyhoeddi gwybodaeth am ein cynnydd a'n cynlluniau ar gyfer datblygu cynaliadwy ar wefan Llywodraeth y Cynulliad. Byddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth uchod yn y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth y Cynulliad. Byddwn yn cyhoeddi diweddariadau ar yr uchod bob blwyddyn fel rhan o'n proses Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy o Adroddiad 2009/10. Cyhoeddir yr Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy ar ein gwefan a hefyd caiff ei gyflwyno gerbron y Cynulliad ac mae'n cynnwys sylwadau gan y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, ein cynghorwyr datblygu cynaliadwy annibynnol.

141. O ran rhan olaf yr argymhelliad, nodwn swyddogaeth y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai fel y gweinidog arweiniol ar faterion datblygu cynaliadwy. Fodd bynnag, nodwn hefyd bod y ddyletswydd i amlinellu sut y bwriadwn hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn ein Cynllun yn ddyletswydd ar Lywodraeth y Cynulliad o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Cytunodd y Cabinet ar gynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth y Cynulliad a chytuno ar yr angen i ddatblygu cynaliadwy fod yn egwyddor drefnu ganolog i Lywodraeth y Cynulliad. Dangosir ein hymroddiad ar y cyd i ddarparu Cymru fwy cynaliadwy gan arweinyddiaeth y gwahanol Weinidogion i wneud cynaliadwyedd yn fater

allweddol yn eu portffolios. Felly, rydym o'r farn y dylai pob Gweinidog a phortffolio benderfynu ar y ffordd orau o fod yn fwy cynaliadwy ac i weithredu yn hyn o beth. Caiff eu cyfraniadau at gynaliadwyedd eu casglu a'u hadrodd gan Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai bob blwyddyn fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy. O 2009/10 ymlaen, byddwn yn cynnwys yn ein Hadroddiad Blynyddol adroddiad ar sut y mae Gweinidogion unigol wedi sefydlu datblygu cynaliadwy fel egwyddor drefnu ganolog yn eu Hadran fel rhan o'n Hadroddiad Blynyddol. Cytunir ar gyfraniadau o bortffolios unigol gan y Gweinidogion perthnasol, ond cytunir ar yr adroddiad cyffredinol gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai.

142. Hefyd, cytunodd Is-bwyllgor y Cabinet ar Newid yn yr Hinsawdd (dan Gadeiryddiaeth y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai) yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2009 y byddai gan bob Adran broses glir ar gyfer dangos sut mae Datblygu Cynaliadwy i gael ei ddatblygu fel egwyddor drefnu ganolog yn yr Adran honno, ac y byddai'r Pwyllgor yn rhoi trosolwg ac arweiniad parhaus ar y ffordd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn sefydlu datblygu cynaliadwy fel ei egwyddor drefnu ganolog. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod cofnodion y cyfarfodydd hyn yn cael eu cyhoeddi fel mater o drefn.

143. Hefyd, rwyf wedi penderfynu cael trafodaeth yn y Cynulliad Cenedlaethol ar ein dangosyddion Datblygu Cynaliadwy a'n Hadroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy, er mwyn i Aelodau'r Cynulliad fynegi eu barn i mi ar y camau rydym yn eu cymryd a'r cynnydd rydym yn ei wneud tuag at fod yn genedl gynaliadwy.

144. Gobeithiaf fod y Pwyllgor yn cytuno â'r prosesau adrodd cyhoeddus hyn, ochr yn ochr â'r Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy, sy'n dangos ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu cynaliadwy ac i adrodd ar ein cynnydd a'n cynlluniau.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim gan fod y prosesau adrodd cyhoeddus eisoes yn rhan o gyllideb Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai.

<u>Mesur canlyniadau – beth sy'n cael ei gyflawni?</u>

**Argymhelliad 3: rydym yn argymell bod dull yn cael ei ddatblygu i fesur canlyniadau polisïau o ran datblygu cynaliadwy.**

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

145. Rydym yn derbyn ei bod hi'n werthfawr deall sut mae polisïau Llywodraeth y Cynulliad yn cyfrannu at ganlyniadau datblygu cynaliadwy, ond yn ystyried bod gennym ddigon o ddulliau sy'n bodoli ac yn cael eu datblygu i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn. Mae angen i ddatblygu cynaliadwy fod yn ganolog i'r ffordd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu polisi, dyrannu adnoddau, cynllunio ei fusnes a rheoli darpariaeth, yn hytrach nag yn rhywbeth ychwanegol. Mae

Llywodraeth y Cynulliad yn gwella'r prosesau hyn a'r dulliau sy'n eu cynorthwyo yn barhaus, ac yn gwella ein gallu i fesur effaith ein gweithgareddau, polisïau a buddsoddiad ar y canlyniadau sy'n bwysig i bobl Cymru fel rhan allweddol o'r gwelliant hwn.

146. Mae Porth i Bolisi Llywodraeth y Cynulliad wedi'i adnewyddu yn ddiweddar a bydd yn gofyn cwestiynau am gyfraniad posibl polisi newydd at ddangosyddion datblygu cynaliadwy. Fodd bynnag, cydnabyddwn mai'r mater allweddol ar gyfer proses datblygu cynaliadwy yw darparu polisïau sy'n integreiddio amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a, lle nad yw hyn yn bosibl, defnyddio datblygu cynaliadwy fel fframwaith i reoli unrhyw addasiad i sicrhau'r canlyniad mwyaf cynaliadwy. Felly, ystyriwn ei bod hi'n hanfodol ein bod yn asesu sut mae ein polisïau yn eu cyfanrwydd yn cyfrannu at ein dangosyddion datblygu cynaliadwy yn gyffredinol, a'n bod yn defnyddio'r negeseuon sy'n deillio o'n dangosyddion i lywio'r gwaith o ddatblygu polisi a rhaglenni.

147. Ar lefel Cymru gyfan, ar hyn o bryd rydym yn adrodd bob blwyddyn ar ein cyfres o ddangosyddion cynaliadwy, ac mae'r rhain yn rhoi syniad da o'r cynnydd rydym yn ei wneud tuag at ddod yn genedl fwy cynaliadwy. Mae ein Cynllun newydd yn nodi y byddwn yn sicrhau bod ein polisïau yn cydweddu â'r cyfeiriad a ddangosir gan y dangosyddion hyn, er mwyn cynorthwyo i sicrhau bod ein polisïau yn sicrhau canlyniadau cynaliadwy. Bydd hyn yn ei gwneud yn gliriach sut y gall polisïau Llywodraeth y Cynulliad yn gyffredinol gyfrannu ar ein hamcanion cynaliadwyedd.

148. Mae'r dull hwn hefyd yn cydnabod y gall polisi unigol gael amrywiaeth o effeithiau a chanlyniadau - gall gael effeithiau uniongyrchol, mesuradwy (e.e. ar ganran y boblogaeth mewn cartrefi incwm isel), ond effaith ehangach ac anuniongyrchol (e.e. ar les unigolyn a chymuned) sy'n anoddach ei mesur a'i dyrannu fel canlyniad polisi arbennig. Hefyd, mae datblygu cynaliadwy yn ymwneud â gwneud penderfyniadau ar gyfer y tymor hirach, ar gyfer ein cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol, a gall penderfyniadau polisi gael eu gwneud sy'n ymdrechu i baratoi ar gyfer y dyfodol nad ydynt yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar fesur.

149. Yn yr un modd, ystyriwn fod canlyniadau sy'n cyfrannu at fesur yn aml yn dibynnu ar wahanol feysydd polisi: er enghraifft ôl troed ecolegol Cymru, sy'n un o'n prif ddangosyddion datblygu cynaliadwy: mae 25% o ôl troed ecolegol i'w briodoli i effaith tai; 20% i fwyd a diod; 18% i drafnidiaeth; 15% i eitemau defnyddwyr; 12% i wasanaethau cyhoeddus; 5% i wasanaethau preifat; a 4% i fuddsoddi cyfalaf. Byddai'n anodd priodoli newid yn ein hôl troed ecolegol i gamau gweithredu unrhyw bolisi unigol.

**Goblygiadau ariannol** - Dim. Mae casglu gwybodaeth am ganlyniadau datblygu cynaliadwy eisoes wedi'i gynnwys.

**Argymhelliad 4: Rydym yn argymell bod y canlyniadau hyn yn cael eu cyhoeddi ar gyfer pob adran fel rhan o adroddiad blynyddol statudol i'r Cynulliad.**

**Ymateb:** Derbyn yn rhannol

150. Rydym yn derbyn bod angen cyhoeddi canlyniadau datblygu cynaliadwy, ac y dylid cyhoeddi polisïau a chynnydd Adrannau tuag at ddatblygu cynaliadwy. Mae'r rhain eisoes yn digwydd yn ein proses adrodd bresennol. Fel y nodir uchod, mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i weithio i wella ein prosesau ar gyfer cydnabod effaith ein gweithgareddau, polisïau a'n buddsoddiadau ar ganlyniadau ar gyfer pobl Cymru, er enghraifft trwy broses Porth i Bolisïau. Mae canlyniadau hyn yn cael eu cyhoeddi

151. Fel ein hymateb i Argymhelliad 2, mae ein Hadroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy yn amlinellu sur mae'r cynigion yn ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy wedi cael eu gweithredu gan Adrannau. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys sylwadau ar y tueddiadau yn ein cynnydd tuag at ddod yn genedl fwy cynaliadwy, fel y dangosir gan ein dangosyddion datblygu cynaliadwy, a'r ymrwymiadau polisi rydym wedi'u gwneud yn ein Cynllun newydd ar gyfer Datblygu Cynaliadwy. Bydd hefyd yn adlewyrchu'r cynnydd ar ymrwymiadau polisïau newydd ac Adrannau sy'n cyfrannu at Gymru gynaliadwy.

152. Fel ein hymateb dan Argymhelliad 3, rydym yn adrodd ar ein cyfres o Ddangosyddion Cynaliadwy bob blwyddyn. Serch hynny, dylid nodi y gellir adrodd yn ystyrlon ar rai dangosyddion canlyniadau bob blwyddyn - un enghraifft dda yr ydym yn adrodd arni fel rhan o'n dangosyddion datblygu cynaliadwy, yw faint o wastraff cartrefi sy'n cael ei ailgylchu neu ei gompostio bob blwyddyn. O ran dangosyddion eraill, megis ôl troed ecolegol, nid yw adrodd yn flynyddol yn ystyrlon, oherwydd maint y data sydd ei angen i gyfrifo hyn yn gywir a'r oedi wrth gasglu'r data hwn.

153. Yn ogystal â'n gofyniad adrodd blynyddol, yn dilyn pob etholiad i'r Cynulliad Cenedlaethol, mae'n ofynnol i ni gyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys asesiad o ba mor effeithiol yw bu'r cynigion a amlinellir yn y Cynllun i hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

154. Gyda'i gilydd mae'r tri adroddiad yn cyfrannu at broses adrodd gynhwysfawr a thrylwyr i ddal Llywodraeth y Cynulliad yn atebol am ei pherfformiad ar ddatblygu cynaliadwy.

**Goblygiadau ariannol** – Dim gan fod y broses adrodd eisoes yn rhan o gyllidebau Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai.

**Argymhelliad 5: rydym yn argymell y dylai pob adran ddatblygu ei dulliau asesu cynaliadwyedd ei hun mewn cydweithrediad ag Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai.**

**Ymateb:** Derbyn yn rhannol

155. Mae gan Adrannau amrywiaeth o ffyrdd ar gyfer prif ffrydio datblygu cynaliadwy ac mae'r rhain yn aml yn ymwneud â meysydd polisi penodol y maent yn eu darparu. Cydnabu'r Pwyllgor werth dull integreiddio'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a dull integreiddio Creu Mannau Cynaliadwy yr Adran Addysg a Hyfforddiant. Ar lefel strategol mae dull integreiddio polisi Llywodraeth y Cynulliad yn cynorthwyo i ddatblygu polisïau sy'n cyflawni ymrwymiadau Cymru'n Un Llywodraeth y Cynulliad mewn ffordd gydgysylltiedig, ac mewn ffordd sy'n integreiddio'r ystyriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol perthnasol. Mae'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy yn amlinellu egwyddorion craidd, amcanion ac ymrwymiadau Llywodraeth y Cynulliad ar Ddatblygu Cynaliadwy, ond rydym yn cydnabod y bydd Adrannau am fynd i'r afael â materion penodol o fewn eu maes polisi arbennig. Cytunwn y gall y dulliau hyn fod yn effeithiol iawn er mwyn prif ffrydio Datblygu Cynaliadwy os ydynt yn cael eu cymhwyso i broses o'r math cywir ac yn cefnogi Adrannau sydd am ddatblygu'r dulliau hyn.

156. Fel yr amlinellir yn y Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd - Ymgynghoriad ar Raglen Weithredu rydym hefyd yn datblygu cyfres o ddulliau i alluogi Adrannau i asesu effeithiau polisïau a rhaglenni ar newid yn yr hinsawdd.

157. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod y cyflawniadau y mae rhai Adrannau wedi'u gwneud heb ddull asesu cynaliadwyedd penodol, er enghraifft rhaglen Cymru o Blaid Affrica, a'r agenda Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang. Er mwyn cynorthwyo i ddatblygu'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy newydd, rydym wedi cynnig gwasanaethau Fforwm ar gyfer y Dyfodol, melin drafod datblygu cynaliadwy a gychwynnwyd gan Jonathan Porritt, i gydweithwyr yn yr holl Adrannau eraill er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r gwaith prif ffrydio hwn, boed hynny trwy ddatblygu dull asesu cynaliadwyedd neu ddulliau eraill.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

<u>Lleihau carbon a'r targed 3%</u>

**Argymhelliad 6: Rydym yn argymell y dylai aelodau cabinet ddod i gytundeb ynghylch pwy sy'n gyfrifol ac felly'n atebol am feysydd penodol o allyriadau carbon.**

**Ymateb:** Cytuno mewn egwyddor

158. Cytunir â'r argymhellid hwn mewn egwyddor. Y Cabinet gyda'i gilydd sy'n gyfrifol am gyrraedd ein targedau newid yn yr hinsawdd Mae Gweinidogion yn gyfrifol am allyriadau yn eu portffolios a bydd sawl maes lle mae Gweinidogion am gydweithio neu weithio gyda'i gilydd ar faes arbennig i gyflawni'r lleihad angenrheidiol.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

**Argymhellion 7 Rydym yn argymell y dylai'r meysydd cyfrifoldeb hyn gael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth y Cynulliad ac y dylai pob gweinidog adrodd i'r Cynulliad ar y cynnydd tuag at gyflawni eu targedau bob blwyddyn.**

**Ymateb:** Derbyn yn rhannol

159. Mae rhan gyntaf yr argymhelliad yn cael ei wrthod oherwydd nid yw'r angenrheidiol fel yr amlinellwyd yn yr ymateb i argymhelliad 6. O ran ail ran yr argymhelliad, rydym eisoes yn adrodd ar gynnydd bob blwyddyn ar leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru yn ein cyhoeddiad Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy i Gymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi datgan ei bwriad i adrodd ar gynnydd i gyrraedd targedau newid yn yr hinsawdd cytûn bob blwyddyn yn y Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd - Datganiad Polisi Lefel Uchel. Hefyd, rydym wedi cadarnhau y byddai adroddiadau rheolaidd ar ein cynnydd yn erbyn ein targedau yn cael eu cyflwyno i Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd - Ymgynghoriad ar Raglen Weithredu'r Cynulliad Cenedlaethol. Felly, mae'r argymhelliad hwn eisoes ar waith.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim, gan fod yr argymhelliad yn ymwneud â chynhyrchu adroddiad blynyddol sydd eisoes ar y gweill a chanddo gyllideb.

<u>Enghreifftiau o arferion da</u>

**Argymhelliad 8: Rydym yn argymell y dylid defnyddio dull yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer agendâu datblygu cynaliadwy a lleihau carbon fel model ar gyfer adrannau eraill**.

**Ymateb:** Derbyn yn rhannol

160. Rydym yn cytuno ei bod hi'n bwysig nodi arferion gorau a rhannu'r hyn a ddysgir, ac mae gennym rwydwaith o Eiriolwyr Datblygu Cynaliadwy Adrannol ar lefel swyddogol sy'n cyfarfod yn rheolaidd i rannu safbwyntiau a dysgu o brofiad am brif ffrydio Datblygu Cynaliadwy. Rydym o'r farn bod yna gyfleoedd i hyrwyddo dysgu mewnol pellach a datblygu o brofiadau pob adran wrth iddynt barhau i brif ffrydio Datblygu Cynaliadwy yn eu polisïau. Cytunwn fod gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol arbenigedd sylweddol i'w rannau mewn

sawl maes, ond rydym yr un mor awyddus i rannu'r arferion da a'r profiadau cadarnhaol a welwyd mewn Adrannau eraill i ddod yn fwy cynaliadwy yn y ffordd fwyaf priodol ar gyfer eu strwythur a'u cysylltiadau eu hunain.

161. Rydym wedi sicrhau bod casglu a rhannu enghreifftiau o arferion da ym mhob sector yn elfen allweddol o'r ymgynghori ar Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd– Rhaglen Weithredu a byddwn yn dosbarthu sawl enghraifft o arferion da a dderbyniwyd fel rhan o'r Strategaeth derfynol.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Jane Davidson, AC**
**Y Gweinidog dos yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai**

**Hydref 2009**